Estyn

Mai 2023



# Llywodraethwyr Ysgol

## Gweithredu fel ffrindiau beirniadol ac effaith hyfforddiant i lywodraethwyr

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| **Crynodeb gweithredol** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Cefndir** | **3** |
| Y cefndir lleol i gyrff llywodraethol yng Nghymru | 3 |
| Strwythur corff llywodraethol | 4 |
| Rolau a chyfrifoldebau llywodraethwyr | 4 |
| Dyletswyddau a phwerau | 5 |
| Swyddogaethau statudol | 6 |
| Hyfforddiant | 6 |
| Diffiniad o gyrff llywodraethol effeithiol: | 8 |
| **Prif ganfyddiadau** | **10** |
| **Argymhellion** | **12** |
| **Arweinyddiaeth strategol, gan gynnwys gweledigaeth, ethos a strategaeth** | **13** |
| Sefydlu a hyrwyddo gweledigaeth | 13 |
| Deall anghenion y gymuned leol, a'i gwasanaethu | 15 |
| Cefnogi gwelliannau | 16 |
| **Atebolrwydd: Dwyn arweinwyr i gyfrif a gweithredu fel ffrind beirniadol** | **18** |
| Gosod disgwyliadau uchel | 18 |
| Herio a chefnogi uwch arweinwyr ysgolion | 18 |
| Rôl llywodraethwyr mewn gwella ysgolion | 19 |
| Casglu gwybodaeth uniongyrchol | 21 |
| Cefnogi lles disgyblion | 25 |
| Rheolaeth ariannol | 26 |
| **Pobl – Yn cynnwys meithrin tîm cryf** | **27** |
| Meithrin tîm effeithiol | 27 |
| Rôl y clerc | 31 |
| Hyfforddiant a chymorth | 31 |
| Penodi staff | 36 |
| Gweithio gydag ysgolion eraill | 37 |
| **Strwythurau, yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau** | **38** |
| Strwythurau cyrff llywodraethol | 38 |
| Deall newidiadau o ran y cwricwlwm ac ADY | 39 |
| **Cydymffurfio â gofynion statudol** | **41** |
| **Gwerthuso i fonitro a gwella ansawdd ac effaith cyrff llywodraethol** | **43** |

Hunanwerthuso 43
Gwerthuso hyfforddiant 43

**Methodoleg a sail y dystiolaeth 45**

**Cwestiynau a ddefnyddiwyd mewn arolwg ar-lein 49**

**Geirfa 58**

**Cyfeiriadau 60**

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar agweddau pwysig ar waith cyrff llywodraethol mewn ysgolion ledled Cymru. Casglom wybodaeth o ystod o wahanol ysgolion o ran mathau a meintiau, gan gynnwys cyfweliadau â phenaethiaid a llywodraethwyr ac arolwg ar-lein ar gyfer llywodraethwyr. Buom yn dadansoddi tystiolaeth arolygu ar draws y sectorau ysgolion a gynhelir ac yn ystyried ymchwil gyhoeddedig. Hefyd, cyfwelom â phartneriaid allweddol o sefydliadau sy'n gweithio gyda chyrff llywodraethol.

O'r dystiolaeth y gwnaethom ei chasglu, canfuom fod y rhan fwyaf o lywodraethwyr yn frwdfrydig ac yn angerddol tuag at eu cyfrifoldebau. Maent yn hynod ymrwymedig i'r rôl sydd ganddynt yn eu hysgol. Mae llawer o lywodraethwyr yn siarad yn wybodus am y cymunedau a wasanaethir gan eu hysgolion, ac maent yn aml yn deall anghenion penodol y cymunedau hynny. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y cyrff llywodraethol yn adlewyrchu cyfansoddiad amrywiol eu cymuned leol yn ddigon da. Mae cael y cydbwysedd cywir o her a chymorth ar gyfer uwch arweinwyr yn agwedd bwysig ar rôl corff llywodraethol. Yn aml, bod yn ffrind beirniadol yw'r enw am hyn. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llywodraethwyr yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'r uwch arweinwyr ac maent yn gefnogol i'w gwaith. Fodd bynnag, canfuom mewn mwyafrif o ysgolion nad yw llywodraethwyr yn dwyn arweinwyr i gyfrif am berfformiad addysgol yn ddigon da. Yn ychwanegol, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon eang o'u rôl mewn sicrhau disgwyliadau uchel ym mhob agwedd ar waith yr ysgol. Mae hyn oherwydd nad ydynt yn herio uwch arweinwyr yn ddigon da.

Mewn llawer o ysgolion, mae gan lywodraethwyr drosolwg o flaenoriaethau eu hysgol ar gyfer gwella, ac mae ganddynt ddealltwriaeth fras o sut maent wedi cael eu nodi trwy hunanwerthuso. Mae llywodraethwyr yn dilyn hynt a helynt y cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud tuag at gyflawni eu blaenoriaethau trwy wybodaeth reolaidd y mae arweinwyr yn ei darparu ar eu cyfer. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, yn dilyn y cyfyngiadau o ganlyniad i bandemig COVID-19, mae llywodraethwyr wedi ailddechrau cynnal eu hymweliadau. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, nid yw llywodraethwyr yn defnyddio eu hymweliadau ag ysgolion yn bwrpasol i gasglu tystiolaeth uniongyrchol i lywio'u gwerthusiadau o waith yr ysgol.

Er bod hunanwerthuso ysgol gyfan fel arfer yn cael ei ymgorffori mewn ysgolion, lleiafrif o gyrff llywodraethol yn unig sydd wedi cynnal unrhyw hunanwerthusiad o'u gwaith eu hunain yn ddiweddar. Mae mwyafrif y cyrff llywodraethol yn cydnabod bod hwn yn faes sydd angen ei wella. Yn ychwanegol, lleiafrif o gyrff llywodraethol yn unig sy'n cynnal archwiliad rheolaidd o fedrau eu haelodau fel bod ganddynt ddarlun cyfredol o ystod eu medrau a'u profiadau.

Mae hyfforddiant o ansawdd uchel yn bwysig i sicrhau bod llywodraethwyr yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf mewn addysg. Mae'r rhan fwyaf o lywodraethwyr yn cael hyfforddiant gan staff ysgol a gan ddarparwyr allanol, sef awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion, fel arfer. Ceir cyrsiau hyfforddi gorfodol y mae'n rhaid i lywodraethwyr eu mynychu, yn ogystal â sesiynau opsiynol.

Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod argaeledd ac ansawdd yr hyfforddiant yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol rannau o Gymru. Mae rhai awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion yn cynnig amrywiaeth gyfoethog o sesiynau hyfforddiant buddiol i lywodraethwyr bob tymor, tra bod llai o sesiynau o lawer ar gael mewn rhannau eraill o'r wlad. Yn bwysig, mae'r hyfforddiant data gorfodol y mae'n rhaid i bob llywodraethwr ei fynychu wedi dyddio ac nid yw'n helpu llywodraethwyr i ddeall arferion asesu presennol. Lleiafrif o lywodraethwyr yn unig sy'n gwerthuso'r hyfforddiant a gânt a'i effaith ar wella'u rôl fel llywodraethwyr effeithiol.

Agwedd bwysig ar hyfforddiant yw sicrhau bod llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o ddiwygio addysgol, yn enwedig y Cwricwlwm i Gymru a'r newidiadau sydd eu hangen i fynd i'r afael â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET). Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llywodraethwyr yn teimlo eu bod wedi cael gwybodaeth ddigonol i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o newidiadau.

Mae gan lywodraethwyr rwymedigaethau statudol pwysig. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llywodraethwyr yn deall eu rôl mewn diogelu disgyblion. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o'u holl rwymedigaethau, er enghraifft o ran bwyta ac yfed yn iach.

Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi gwneud argymhellion ar gyfer cyrff llywodraethol, awdurdodau lleol, gwasanaethau gwella ysgolion a Llywodraeth Cymru.

# Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei lythyr cylch gwaith at Estyn ar gyfer 2022-2023. Mae'n ymwneud â gwaith cyrff llywodraethol mewn ysgolion cynradd a gynhelir, ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig. Canolbwyntiom ar sut beth yw corff llywodraethol effeithiol.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, llywodraethwyr a phenaethiaid mewn ysgolion, awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion. Rydym yn gobeithio y bydd hefyd o ddiddordeb i sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda chyrff llywodraethol ysgolion yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio canfyddiadau o dystiolaeth arolygu a chyfweliadau â phenaethiaid a llywodraethwyr mewn sampl o 41 o ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig ledled Cymru. Anfonodd arolygwyr arolwg ar-lein at gyrff llywodraethol mewn 250 o ysgolion hefyd a chawsant ymatebion gan 363 o lywodraethwyr. Yn ychwanegol, ymgynghorodd arolygwyr ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys gwasanaethau gwella ysgolion a swyddogion awdurdodau lleol a chynrychiolwyr o sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda chyrff llywodraethol yng Nghymru, ac yn eu cefnogi. Gellir gweld mwy o fanylion am sail y dystiolaeth yn Atodiad 1. Pan fyddwn yn defnyddio meintolwyr yn yr adroddiad, mae hyn yn golygu y bu'r canfyddiadau yn gyffredin ar draws yr holl sectorau ysgolion dan sylw.

# Cefndir

## Y cefndir cyfreithiol i gyrff llywodraethol yng Nghymru

Mae'r gofyniad am gyrff llywodraethol ysgolion yng Nghymru wedi'i nodi mewn cyfraith, a diffinnir eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn deddfwriaeth, hefyd. Rhaid i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru gael corff llywodraethol a ffurfiwyd yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Gwneir y rheoliadau hynny dan Ddeddf Addysg 2002, Rhan 3, Pennod 1, sy'n amlinellu'r fframwaith ar gyfer sefydlu cyrff llywodraethol.

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("y Ddeddf SSF"), Rhan 2, Pennod 1, yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer y categorïau ysgolion a gynhelir.

Mae holl lywodraethwyr ysgolion yn wirfoddolwyr. Rhaid i bob corff llywodraethol ysgol gynnwys cyfuniad penodol o lywodraethwyr penodedig ac etholedig o gategorïau amrywiol. Mae cyfansoddiad pob corff llywodraethol yn dibynnu ar nifer ac amrediad oedran disgyblion yn yr ysgol a chategori'r ysgol. Bydd aelodaeth pob corff llywodraethol yn cael ei phennu yn offeryn llywodraethu'r ysgol benodol, sy'n

cael ei lunio dan adran 20 Deddf Addysg 2002 a’r rheoliadau a wnaed dan y ddarpariaeth honno.

## Strwythur corff llywodraethol

Mae pedwar grŵp allweddol o lywodraethwyr ym mhob corff llywodraethol, sef:

- Caiff **rhiant-lywodraethwyr** eu hethol gan y rhieni neu’u penodi gan y corff llywodraethol i gynrychioli buddiannau rhieni sy’n aelodau o’r corff llywodraethol.
- Caiff **athro-lywodraethwyr** eu hethol gan gyd-staff addysgu yn yr ysgol.
- Caiff **staff-lywodraethwyr** eu hethol o blith, a gan, y staff nad ydynt yn addysgu sy’n cael eu cyflogi i weithio yn yr ysgol.
- Caiff **llywodraethwyr awdurdod lleol** eu penodi gan yr awdurdod lleol.

Yn ogystal â’r rhain, mae’r pennaeth (neu bennaeth dros dro) yn aelod o’r corff llywodraethol oni bai ei fod yn dewis peidio â bod yn aelod.

Gallai gwahanol gategorïau o gyrff llywodraethol gynnwys llywodraethwyr o’r mathau canlynol hefyd:

- Llywodraethwyr cymunedol
- Llywodraethwyr sefydledig
- Dirprwy lywodraethwyr
- Llywodraethwyr partneriaethau
- Llywodraethwyr nawdd
- Aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr
- Aelodau annibynnol o bwyllgorau disgyblu a diswyddo staff

Yn ogystal â’r uchod, rhaid i bennaeth pob ysgol uwchradd a gynhelir sicrhau bod y cyngor ysgol yn cael cyfle i enwebu hyd at ddau ddisgybl o Flwyddyn 11 i Flwyddyn 13 o blith ei aelodau i weithredu fel disgybl-lywodraethwyr cyswllt.

Mae pob corff llywodraethol yn pennu cyfansoddiad, aelodaeth a chylch gorchwyl unrhyw bwyllgor y mae’n penderfynu ei sefydlu, ac yn adolygu’r rhain bob blwyddyn. Mae’r corff llywodraethol yn cadw cyfrifoldeb am lunio polisïau a gweithredoedd yr holl bwyllgorau. Felly, mae’n bwysig fod gan bwyllgorau rôl a chylch gwaith wedi’u diffinio’n glir. Gallai corff llywodraethol ddirprwyo unrhyw un o’i swyddogaethau statudol i bwyllgor, gan adolygu dirprwyo swyddogaethau bob blwyddyn.

## Rolau a chyfrifoldebau llywodraethwyr

Mae’n bwysig fod holl lywodraethwyr ysgolion yn ymwybodol o’u rôl ac yn deall y cyfrifoldebau cyfreithiol sy’n cyd-fynd â’r rôl. Hefyd, dylai llywodraethwyr ddeall eu rôl mewn cysylltiad â chyfrifoldebau’r pennaeth, yr awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a phartïon eraill fel awdurdodau esgobaethol ac ysgolion sefydledig, lle bo’n berthnasol.

Mae cyrff llywodraethol pob ysgol a gynhelir yn gyrff corfforaethol. Mae hyn yn golygu bod gan y corff llywodraethol hunaniaeth gyfreithiol ar wahân i hunaniaeth ei aelodau. Mae corff llywodraethol ysgol sefydledig, ysgol sefydledig arbennig, ysgol

wirfoddol a reolir ac ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn gorff corfforaethol sydd â statws elusennol eithriedig.

Nid oes gan lywodraethwyr unigol, grwpiau o lywodraethwyr na phwyllgorau unrhyw bŵer na hawl i weithredu ar ran y corff llywodraethol, ac eithrio lle mae'r corff llywodraethol, mewn cyfarfod, wedi cytuno i ddirprwyo swyddogaeth benodol i'r unigolyn hwnnw, grŵp o lywodraethwyr neu bwyllgor, neu ble mae rheoliadau'n nodi y dylid arfer swyddogaeth mewn ffordd benodol.

Disgwylir i'r corff llywodraethol gyflawni ei swyddogaethau gyda'r nod o gymryd rôl strategol yn arweinyddiaeth yr ysgol. Mae rôl strategol yn golygu bod y corff llywodraethol yn penderfynu beth mae eisiau i'r ysgol ei gyflawni, ac yn gosod y fframwaith strategol ar gyfer cyrraedd yno. Disgwylir i bob corff llywodraethol sefydlu'r fframwaith strategol trwy:

- osod nodau ac amcanion ar gyfer yr ysgol
- mabwysiadu polisïau ar gyfer cyflawni'r nodau a'r amcanion hynny
- gosod targedau ar gyfer cyflawni'r nodau a'r amcanion hynny
- adolygu cynnydd tuag at gyflawni'r nodau a'r amcanion

Bydd y cynllun datblygu ysgol (CDY), a elwir yn aml yn gynllun gwella ysgol (CGY) yn lle hynny, ynghyd â pholisïau cytunedig y corff llywodraethol, yn gyffredinol, yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer yr ysgol. Disgwylir i gyrff llywodraethol fonitro cynnydd ac adolygu cyfeiriad strategol yr ysgol yn rheolaidd yn sgil y cynnydd hwnnw.

Mae'r pennaeth yn gyfrifol am drefniadaeth, rheolaeth a rheolaethu mewnol yr ysgol, ac am gynghori ar fframwaith strategol y corff llywodraethol, a'i weithredu.

## Dyletswyddau a phwerau

Mae gan gyrff llywodraethol ysgolion a gynhelir ystod o ddyletswyddau a phwerau mewn deddfwriaeth, gan gynnwys pob un o'r canlynol:

- arwain yr ysgol gyda bwriad o hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol ac ymddygiad
- cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am gynnal yr ysgol
- rheoli cyllideb yr ysgol
- gwneud yn siŵr fod y cwricwlwm ar gyfer yr ysgol yn gytbwys ac eang ei seiliau, ac yn benodol, bod y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei addysgu yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021
- rhoi adroddiad i rieni bob blwyddyn sy'n cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion a chanlyniadau arholiadau allanol, lle bo'n berthnasol
- penodi'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth ac aelodau staff eraill, a rheoleiddio ymddygiad a disgyblaeth staff
- llunio cynllun gweithredu ar ôl arolygiad Estyn, pan fydd angen

Mae'r corff llywodraethol yn rhannu cyfrifoldeb â'r pennaeth a'r awdurdod lleol am wneud yn siŵr fod y Cwricwlwm i Gymru a'r trefniadau asesu priodol yn cael eu cynnal.

Mae gan bob corff llywodraethol offeryn llywodraethu. Mae hwn yn amlinellu sut mae'r corff llywodraethol wedi'i ffurfio ac yn ei sefydlu fel corff corfforaethol. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw gwirio bod offeryn drafft ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Pan fo'n briodol, rhaid i'r offeryn llywodraethu gael ei gymeradwyo gan unrhyw lywodraethwyr sefydledig, ymddiriedolwyr a/neu gorff crefyddol, cyn ei gyflwyno i'r awdurdod lleol i'w gymeradwyo.

## Swyddogaethau statudol

Mae'n ofynnol i bob corff llywodraethol ysgol a gynhelir lunio adroddiad blynyddol ar ei waith yn ystod y flwyddyn academaidd. O ran isafswm, rhaid i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth benodol a gall hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r corff llywodraethol yn ystyried ei bod yn berthnasol Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr i Rieni. Gall rhieni ofyn am hyd at dri chyfarfod mewn blwyddyn ysgol gyda chorff llywodraethol eu hysgol. Mae hyn yn disodli'r gofyniad blaenorol i gorff llywodraethol gynnal cyfarfod rhieni blynyddol, er y gall y corff llywodraethol wneud hyn o hyd os ydynt yn dymuno.

Bob blwyddyn, rhaid i'r corff llywodraethol gyhoeddi prosbectws ysgol ar gyfer rhieni a darpar rieni. Rhaid i'r prosbectws gynnwys ystod o wybodaeth statudol fel yr amlinellir yn Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999.

Ceir rhestr o bolisïau a dogfennau statudol y dylai cyrff llywodraethol sicrhau bod yr ysgol wedi'u rhoi ar waith.

## Hyfforddiant

Mae gan lywodraethwyr rôl hanfodol i'w chwarae mewn helpu gwella perfformiad ysgol a dyletswydd i hyrwyddo'r safonau uchaf o gyflawniad addysgol ar gyfer yr holl ddysgwyr. Felly, mae angen i lywodraethwyr fod yn wybodus, cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn ddiwyd a chyfrannu'n effeithiol at waith yr ysgol.

Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant o'r fath fel y mae'n ystyried yn angenrheidiol i alluogi llywodraethwyr i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Rhaid iddo wneud hynny yn rhad ac am ddim i bob llywodraethwr. Yn gynyddol, cynhelir llawer o sesiynau hyfforddi ar-lein.

Ni waeth pa mor brofiadol ydynt, mae angen hyfforddiant cyfoes ar bob llywodraethwr i ddilyn hynt a helynt newidiadau ac adnewyddu eu gwybodaeth. Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud hyfforddiant i lywodraethwyr yn orfodol ar faterion penodol. Datblygwyd Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 at y diben hwn. Maent yn gofyn i lywodraethwyr ymgymryd â'r hyfforddiant canlynol:

- Hyfforddiant ymsefydlu
- Hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion llywodraethwyr
- Hyfforddiant ar ddeall rôl data mewn cefnogi hunanwerthuso a gwelliant mewn ysgolion
- Hyfforddiant ar gyfer clercod

Mae’r mesur hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod cynnwys yr hyfforddiant gofynnol ar gyfer llywodraethwyr a chlercod i sicrhau cysondeb mewn safonau hyfforddiant a gyflwynir ledled Cymru.

Yn ogystal â’r cynnwys gorfodol a ddarperir yn yr hyfforddiant ymsefydlu, argymhellir hyfforddiant manylach ar gyfer yr holl lywodraethwyr mewn cydraddoldeb a diogelu.

Mae hyfforddiant arall ar gyfer llywodraethwyr a chlercod yn ddewisol, ond caiff ei annog yn gryf fel bod gan lywodraethwyr ddealltwriaeth well o’u rolau ac ystod eu cyfrifoldebau, a fydd yn helpu llywodraethwyr unigol a’r corff llywodraethol i fod yn fwy effeithiol yn y pen draw.

Ceir amrywiaeth o sefydliadau eraill sy’n darparu hyfforddiant i lywodraethwyr yng Nghymru. Mae’r rhain yn cynnwys:

**Gwasanaethau gwella ysgolion** – mae’r ffordd y mae awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion yn trefnu hyfforddiant yn amrywio’n fawr ar draws gwahanol rannau o Gymru. Er enghraifft, mae’r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) yn ysgwyddo’r cyfrifoldeb am hyfforddiant i lywodraethwyr ar gyfer pob awdurdod lleol yn y rhanbarth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir mewn rhannau eraill o’r wlad.

Mae **Gwasanaethau Governors Cymru (GCS)** yn wasanaeth cymorth masnachol cenedlaethol ar gyfer cyrff llywodraethol, sy’n darparu ystod o gymorth i ysbrydoli a hyrwyddo llywodraethu effeithiol. Mae’n cynnig pecyn tanysgrifio, sy’n cynnwys mynediad at linell gymorth gyfrinachol, e-fwletinau rheolaidd a mynediad at adrannau cyngor ac arweiniad ar-lein i aelodau. Caiff aelodau fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi rheolaidd dan arweiniad eu swyddogion neu siaradwyr gwadd allanol.


Mae **Cyngor y Gweithlu Addysg** (CGA) wedi gweld cynnydd yn y galw gan ysgolion am hyfforddiant penodol i lywodraethwyr. Mae wedi cyflwyno pedair sesiwn er mis Medi 2022 ar waith CGA i helpu llywodraethwyr i ddeall eu cyfrifoldebau yn y gymuned addysg ehangach yn llawnach.

Mae **Governors for Schools** yn elusen annibynnol sy’n cynorthwyo ysgolion ledled Cymru i ddod o hyd i lywodraethwyr hynod fedrus, gan baru set medrau gwirfoddolwr i ysgol mewn angen. Mae’n darparu ystod eang o gyfleoedd hyfforddiant am ddim ar gyfer ei wirfoddolwyr.

Prif ddiben yr **Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol** yng Nghymru (NAEL) yw cyfrannu at ddatblygu galluoedd proffesiynol arweinwyr presennol a darpar arweinwyr ar draws y system addysg. Mae’n darparu cydlyniaeth a sicrwydd ansawdd ar gyfer ystod o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth addysgol sydd ar gael yng Nghymru. Mae’n helpu datblygu a gweithredu gweledigaeth a strategaeth ar gyfer arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru. Ei nod yw bod yn aelod gweithgar ac uchel ei barch o haen ganol addysg a’r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y gweithlu addysg o ran materion arweinyddiaeth. Mae NAEL yn cydnabod y dylid cynnwys llywodraethwyr yn ei chynnig arweinyddiaeth, a bydd yn defnyddio canfyddiadau’r adroddiad hwn i lywio’i gwaith i gefnogi llywodraethwyr yn eu rôl fel ffrind beirniadol i'r tîm arweinyddiaeth.

### Diffiniad o gyrff llywodraethol effeithiol:

Ar hyn o bryd, nid oes dogfen gan Lywodraeth Cymru sy'n amlinellu nodweddion corff llywodraethol effeithiol. Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd yr Adran Addysg (DfE) yn Lloegr competency framework for governance sy'n amlinellu'r wybodaeth, y medrau a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer llywodraethu effeithiol mewn ysgolion a gynhelir, academïau ac ymddiriedolaethau aml-academi. Mae'r fframwaith yn cydnabod bod llywodraethu effeithiol yn darparu cyfeiriad a rheolaeth strategol i ysgolion. Mae'n creu atebolrwydd, goruchwyliaeth a sicrwydd cadarn ar gyfer eu perfformiad addysgol ac ariannol, ac mae'n uchelgeisiol i'r holl blant a phobl ifanc gyflawni'r deilliannau gorau. Mae'r fframwaith yn cynnwys cymwyseddau wedi'u hategu gan sylfaen o egwyddorion pwysig a phriodoleddau personol. Mae'r cymwyseddau wedi'u grwpio o dan benawdau chwe nodwedd llywodraethu effeithiol, sydd wedi'u hamlinellu yn y DfE Governance Handbook (2020).




Addaswyd o *'A competency Framework for Governance'* (2017) t. 6 yr Adran Addysg.

**Mae’r ddogfen yn nodi bod llywodraethu ysgol effeithiol yn seiliedig ar chwech o nodweddion allweddol, sef:**

- Arweinyddiaeth strategol sy'n gosod ac yn hyrwyddo gweledigaeth, ethos a strategaeth.
- Atebolrwydd sy'n cynyddu safonau a pherfformiad ariannol.
- Pobl sydd â'r medrau, y profiad, y rhinweddau a'r gallu cywir.
- Strwythurau sy'n atgyfnerthu rolau a chyfrifoldebau diffiniedig yn glir.
- Cydymffurfio â gofynion statudol a chytundebol.
- Gwerthuso i fonitro a gwella ansawdd ac effaith llywodraethu.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae'r rhan fwyaf o lywodraethwyr yn frwdfrydig ac wedi ymrwymo i'w rôl. Maent yn cydweithio ag uwch arweinwyr ysgolion ac yn gefnogol i'w gwaith.

2 Mewn llawer o ysgolion, mae'r corff llywodraethol wedi cael ei gynnwys mewn sefydlu gweledigaeth ei ysgol. Ym mwyafrif yr ysgolion, nid yw llywodraethwyr yn deall yn llawn fod angen i'w gwaith adlewyrchu gweledigaeth a nodau eu hysgol.

3 Mae gan lawer o lywodraethwyr wybodaeth gref am y cymunedau y mae eu hysgolion yn eu gwasanaethu. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y cyrff llywodraethol yn adlewyrchu cyfansoddiad amrywiol eu cymunedau lleol yn ddigon da. Yn aml, ceir anawsterau wrth recriwtio pobl o wahanol gefndiroedd i ymuno â chyrff llywodraethol. Yn aml, mae ychydig o ysgolion, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan annhegwch ariannol neu dlodi, yn cael anhawster llenwi swyddi gwag ar eu cyrff llywodraethol.

4 Bron ym mhob ysgol, mae llywodraethwyr yn deall mai eu rôl yw cynorthwyo a herio uwch arweinwyr a gweithredu fel ffrindiau beirniadol. Ym mwyafrif yr ysgolion, nid yw llywodraethwyr yn dwyn arweinwyr i gyfrif am berfformiad addysgol yn effeithiol. Nid oes gan lywodraethwyr ddealltwriaeth ddigon eang o'u rôl mewn sicrhau disgwyliadau uchel ym mhob agwedd ar waith yr ysgol. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae llywodraethwyr yn herio uwch arweinwyr yn effeithiol i helpu gyrru gwelliant ysgol gyfan.

5 Mewn llawer o ysgolion, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth eang o flaenoriaethau eu hysgol ar gyfer gwella a sut maent yn cysylltu â hunanwerthusiad ysgol gyfan. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, caiff llywodraethwyr wybodaeth reolaidd am y cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud tuag at fodloni eu blaenoriaethau trwy adroddiadau tymhorol gan y pennaeth a thystiolaeth arall a rennir gyda nhw.

6 Mewn gormod o ysgolion, nid yw llywodraethwyr yn defnyddio'u hymweliadau â'r ysgol i gasglu tystiolaeth i lywio'u gwerthusiad o'r ysgol yn ddigon da. O ganlyniad, maent yn dibynnu'n ormodol ar wybodaeth a gyflwynwyd gan arweinwyr yr ysgol.

7 Mewn mwyafrif o ysgolion, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth addas o wybodaeth ariannol a gyflwynwyd iddynt gan uwch arweinwyr a swyddogion awdurdodau lleol. Maent yn gwneud penderfyniadau ariannol gwybodus sydd o fudd i ddisgyblion. Mewn llawer o ysgolion, mae llywodraethwyr ar y pwyllgor cyllid sydd â chefndir ariannol.

8 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae cyrff llywodraethol yn cynnal archwiliad rheolaidd o fedrau eu haelodau fel bod ganddynt ddarlun cywir o ystod eu medrau a'u profiadau. Mewn gormod o ysgolion, nid yw cyrff llywodraethol yn cynnal yr ymarfer hwn yn ddigon aml. Mewn mwyafrif o ysgolion, mae cyrff llywodraethol yn paru medrau unigol ei lywodraethwyr yn dda â gwahanol rolau. Mae'n penodi llywodraethwyr i wahanol bwyllgorau ar sail eu cefndir a'u medrau.

9 Mewn llawer o ysgolion, caiff llywodraethwyr gymorth addas gan yr awdurdod lleol neu'r gwasanaeth gwella ysgolion. Fodd bynnag, mae ansawdd ac argaeledd y cymorth a'r cyngor yn amrywio gormod rhwng awdurdodau lleol. Hefyd, mae cyrff llywodraethol yn defnyddio sefydliadau eraill i helpu eu cynghori pan fydd ganddynt ymholiadau neu angen cymorth i recriwtio llywodraethwyr.

10 Pan gaiff llywodraethwyr eu penodi i ddechrau, byddant yn cael cyfnod ymsefydlu mewnol ym mwyafrif yr ysgolion, ond mae ansawdd y cymorth hwn yn amrywio gormod. Ym mhob rhan o'r wlad, caiff llywodraethwyr elwa ar hyfforddiant wedi'i drefnu gan awdurdodau lleol neu wasanaethau gwella ysgolion. Fodd bynnag, mae argaeledd ac ansawdd yr hyfforddiant rhwng gwahanol rannau o Gymru yn amrywio gormod. Mae rhai rhanbarthau'n cynnig amrywiaeth gyfoethog o gyfleoedd hyfforddi i lywodraethwyr bob tymor, tra bod llawer llai o sesiynau ar gael mewn rhannau eraill o'r wlad. Mae'r rhan fwyaf o lywodraethwyr mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed yn ystyried bod hyfforddiant gorfodol yn ddefnyddiol, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r hyfforddiant data gorfodol wedi dyddio ac nid yw wedi'i gysylltu ag arfer bresennol. Mae'r rhan fwyaf o lywodraethwyr mewn ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig yn gweld nad yw hyfforddiant gorfodol yn berthnasol iawn i amgylchiadau eu hysgolion penodol.

11 Lleiafrif o lywodraethwyr yn unig sy'n gwerthuso'r hyfforddiant a gânt a'i effaith ar wella'u rôl fel llywodraethwr effeithiol. Mae hyn yn ddiffyg ym mwyafrif yr ysgolion.

12 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llywodraethwyr yn diwygio aelodaeth eu pwyllgorau a'u panelau bob blwyddyn. Mewn ychydig o ysgolion, maent yn ystyried strwythur eu pwyllgorau anstatudol yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion yr ysgol. Maent yn defnyddio pwyllgorau yn hyblyg i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn effeithiol.

13 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llywodraethwyr wedi derbyn gwybodaeth ddigonol i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o newid y cwricwlwm yn eu hysgolion. Fodd bynnag, mae gan lawer o lywodraethwyr bryderon nad ydynt yn deall trefniadau asesu. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth addas o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a'r goblygiadau i'w hysgol. Mewn llawer o ysgolion, mae llywodraethwyr wedi derbyn cyflwyniadau defnyddiol ar newidiadau, wedi'u cyflwyno gan uwch staff yr ysgol.

14 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, caiff llywodraethwyr hyfforddiant diogelu rheolaidd, ac mae hyn yn eu helpu i ddeall eu cyfrifoldebau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw eu lefel her a dealltwriaeth o sut beth yw diogelu yn eu hysgol a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â phryderon ynghylch amddiffyn plant wedi'u datblygu'n ddigonol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cyrff llywodraethol yn ymwybodol o bolisi eu hysgol ar fwyta ac yfed yn iach, ond mae ganddynt ddealltwriaeth annigonol o'u rhwymedigaethau statudol fel llywodraethwyr ynghylch glynu at ganllawiau Llywodraeth Cymru.

15 Lleiafrif o gyrff llywodraethol yn unig sydd wedi cynnal unrhyw hunanwerthusiad o'u gwaith yn ddiweddar. Mae mwyafrif y cyrff llywodraethol yn cydnabod bod hwn yn faes y mae angen iddynt ei wella.

## Argymhellion

**Dylai cyrff llywodraethol ac ysgolion:**

A1 Wella gallu llywodraethwyr i herio uwch arweinwyr am bob agwedd ar waith yr ysgol

A2 Sicrhau bod llywodraethwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr i arsylwi'n uniongyrchol y cynnydd y mae eu hysgol yn ei wneud tuag at gyflawni ei blaenoriaethau

A3 Cynnal hunanwerthusiad rheolaidd o waith y corff llywodraethol i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella

A4 Gwerthuso effaith hyfforddiant i lywodraethwyr ar eu rôl fel arweinwyr strategol effeithiol a nodi gofynion hyfforddi yn y dyfodol

**Dylai awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion:**

A5 Werthuso ansawdd eu hyfforddiant i lywodraethwyr yn fwy trylwyr i wneud gwelliannau lle mae angen

A6 Cydweithio i sicrhau cydlyniant a chysondeb gwell mewn cyfleoedd hyfforddi o ansawdd uchel rhwng gwahanol rannau o'r wlad

A7 Darparu cymorth a chyngor mwy effeithiol i gyrff llywodraethol i'w helpu yn eu rôl fel arweinwyr strategol effeithiol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 Ddiweddaru'r arweiniad i awdurdodau lleol ar beth i'w gynnwys mewn hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr ysgol ar ddeall rôl data mewn cefnogi hunanwerthuso a gwelliant mewn ysgolion, yn unol â newidiadau cenedlaethol i arferion asesu

A9 Cynhyrchu gwybodaeth am rôl bwysig rhiant-lywodraethwyr i helpu annog rhieni, yn enwedig y rhai o gefndiroedd ethnig lleiafrifol gwahanol, i wneud cais i fod yn rhiant-lywodraethwr

A10 Creu fframwaith cymwyseddau i gynorthwyo cyrff llywodraethol i wella'u heffeithiolrwydd

# Arweinyddiaeth strategol, gan gynnwys gweledigaeth, ethos a strategaeth


## Sefydlu a hyrwyddo gweledigaeth

Swyddogaeth graidd gyntaf corff llywodraethol yw arweinyddiaeth ysgol strategol. Mae hyn yn cynnwys gosod fframwaith strategol cyffredinol yr ysgol, gan gynnwys ei gweledigaeth a'i blaenoriaethau strategol. Mae gan y corff llywodraethol gyfrifoldeb am osod a modelu diwylliant, gwerthoedd ac ethos ei ysgol, hefyd. Pan fydd cymeriad crefyddol i ysgol, cytunir ar hyn ar y cyd â'r awdurdod esgobaethol.

Mae cyrff llywodraethol effeithiol yn darparu arweinyddiaeth strategol hyderus i'w hysgolion. Maent yn arwain trwy esiampl ac yn gosod y naws ar gyfer yr ysgol o'r brig. Mae'r rhan fwyaf o lywodraethwyr yn frwdfrydig ac ymroddgar i'w rôl. Maent yn cydweithio ag uwch arweinwyr ac yn gefnogol i'w gwaith. Yn benodol, ym mwyafrif yr ysgolion, mae gan gadeirydd y llywodraethwyr berthynas weithio gref ac ymddiriedus â'r pennaeth. Maent yn aml yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion sy'n berthnasol i'r ysgol.

Pan fydd ysgol yn sefydlu ei gweledigaeth, mae'n hanfodol bod cyrff llywodraethol wedi'u cysylltu â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ac yn ymatebol iddynt. Fodd bynnag, ledled y wlad, mae rôl llywodraethwyr mewn cytuno ar nodau a gweledigaeth eu hysgol yn amrywio'n sylweddol. Mewn llawer o ysgolion, mae llywodraethwyr wedi cael eu cynnwys, yn aml fel rhan o ymglymiad rhanddeiliaid yn gyffredinol, mewn darparu awgrymiadau a ffafriaethau ar gyfer gweledigaeth eu hysgol. Yn fwyaf diweddar, mae hyn wedi bod yn unol â newidiadau i'r cwricwlwm.

**Beth mae llywodraethwyr yn ei ddweud am eu rôl mewn cytuno ar y weledigaeth ar gyfer eu hysgol**




*Mae canrannau'n seiliedig ar ymatebion gan 348 o lywodraethwyr.*

Mewn ychydig o ysgolion, mae arweinwyr wedi ymgysylltu'n dda â llywodraethwyr i roi cyfle iddynt gael mewnbwn manylach i ddatblygu gweledigaeth a nodau'r ysgol. Er enghraifft, yn yr ysgolion hyn, mae uwch arweinwyr yn gofyn i lywodraethwyr am eu barn ar y cwricwlwm, pa fedrau y dylent eu dysgu neu sut orau gallai'r ysgol ymestyn profiadau dysgu trwy brofiadau, tripiau ac ymwelwyr.

Mewn llawer o ysgolion, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth sylfaenol o weledigaeth eu hysgol ar gyfer dysgu ac addysgu. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llywodraethwyr yn deall ei bod yn bwysig ystyried lles disgyblion, a ble mae hyn yn cyd-fynd â'u gweledigaeth a'u nodau cyffredinol. Mewn un ysgol gynradd yn Ynys Môn, er enghraifft, yn ystod y pandemig, gwelodd llywodraethwyr werth cynyddol mewn cefnogi lles disgyblion ac eiriolwyd dros greu gardd les ysgol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid yw llywodraethwyr yn deall yn llawn y cysylltiad pwysig rhwng eu gwaith a chyflawni gweledigaeth a nodau'r ysgol. Yn aml, mae llywodraethwyr yn cael trafferth esbonio sut maent yn mynd ati i hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol trwy eu gwaith a'u blaenoriaethau.

Mewn un ysgol gynradd a sefydlwyd yn ddiweddar, dechreuodd llywodraethwyr â'u gweledigaeth ar gyfer yr ysgol newydd cyn cyfweld â darpar ymgeiswyr am swydd pennaeth.

Sefydlwyd **Ysgol Gynradd Parc Jiwbilî** yng Nghasnewydd ym mis Medi 2017. Pan roedd yr awdurdod lleol yn cynllunio'r ysgol newydd, ystyriodd y corff llywodraethol cysgodol ei bod yn bwysig gofyn i ddarpar ymgeiswyr am swydd y pennaeth am eu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol yn y cyfweliad. Cydnabuont mai dyma oedd un o rannau pwysicaf y cyfweliad.

Ers penodi'r pennaeth, mae'r corff llywodraethol wedi cael ei gynnwys yn llawn mewn cytuno ar y weledigaeth ar gyfer yr ysgol ac wedi cefnogi'r pennaeth yn llawn trwy daith yr ysgol. Mae llywodraethwyr wedi ymwneud â sut mae'r weledigaeth wedi esblygu trwy'r blynyddoedd ond wedi cael awydd cryf i gadw gwerthoedd craidd yr ysgol. Maent yn teimlo bod cael parhad yn aelodaeth y corff llywodraethol wedi bod yn bwysig i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol a'r gymuned yn dda ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu a hyrwyddo gweledigaeth ym mhob agwedd ar eu gwaith. Maent yn ailedrych ar weledigaeth yr ysgol ar bob diwrnod datblygiadol blynyddol i sicrhau ei bod yn ffres ym meddyliau llywodraethwyr, a hefyd i gael barn llywodraethwyr ar b'un a ydynt yn teimlo ei bod yn briodol o hyd i'r ysgol neu fod angen ei hadolygu.

### Deall anghenion y gymuned leol, a'i gwasanaethu

Mae cyrff llywodraethol effeithiol yn wybodus am farn ac anghenion rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig rhieni, ac yn ymateb iddynt. Mae llawer o gyrff llywodraethol yn meddu ar wybodaeth gref am y cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu gan eu hysgolion. Mae ganddynt aelodau sy'n siarad yn wybodus am anghenion penodol y gymuned leol ac yn gwerthfawrogi rôl bwysig yr ysgol mewn cynorthwyo eu disgyblion a'u teuluoedd.

Yn y ddwy ysgol gynradd hyn, mae llywodraethwyr wedi ymrwymo i wasanaethu anghenion cymunedau eu hysgol yn y ffyrdd gorau y gallant.

Yn **Ffederasiwn Ysgolion Cynradd Eveswell a Somerton** yng Nghasnewydd, mae llywodraethwyr yn adnabod y cymunedau y mae'r ddwy ysgol yn eu gwasanaethu yn dda. Mae ffocws cryf ar gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd mewn angen, er enghraifft gofalwyr ifanc. Mae llywodraethwyr wedi ymrwymo i gynorthwyo teuluoedd sy'n cael trafferthion, ac yn herio arweinwyr yn barhaus i gynyddu eu cymorth. Maent yn gweithio gydag uwch arweinwyr i sicrhau eu bod yn gwneud gwahaniaeth ac yn cynorthwyo pob plentyn cystal ag y gallant. Mae gan lywodraethwyr broffil uchel yn y ddwy ysgol, ac mae rhieni'n dra chyfarwydd â nhw.

Yn **Ysgol Gynradd Doc Penfro**, mae'r corff llywodraethol wedi penodi llywodraethwyr yn 'hyrwyddwyr trechu tlodi'. Mae'r llywodraethwyr hyn yn chwilio am grantiau sydd ar gael i'w helpu i gefnogi'r gymuned leol. Mae'r llywodraethwyr sy'n hyrwyddwyr trechu tlodi yn holi rhieni'n rheolaidd i ddarganfod sut orau y gallant eu helpu. Maent yn trefnu digwyddiadau codi arian ac yn defnyddio grantiau i brynu pethau sydd eu hangen ar rieni. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi prynu blancedi i ychwanegu at eu troli 'helpwch eich hun' gan fod hyn yn rhywbeth yr oedd rhieni wedi gofyn amdano.

## Cefnogi gwelliannau

Os yw Estyn yn gosod ysgol mewn categori statudol ar ôl arolygiad, mae’n bwysig fod gan y corff llywodraethol y capasiti i ddarparu arweinyddiaeth strategol gref ar gyfer yr ysgol i wneud gwelliannau pwysig yn gyflym.

Yn **Ysgol Bryn Alyn** yn Wrecsam, mae rôl llywodraethwyr yn meithrin synnwyr adfywiedig o gymuned wedi bod yn ddatblygiad allweddol yn nhaith yr ysgol allan o’r categori statudol mesurau arbennig.

Mae llywodraethwyr yn ymgysylltu’n llawnach â’r holl randdeiliaid erbyn hyn, yn enwedig disgyblion a rhieni. Mae hyn wedi helpu adfer ymddiriedaeth a hyder yn yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn cymryd rôl weithredol mewn sicrhau bod arweinwyr yn ystyried barn disgyblion a rhieni’n ofalus fel rhan o daith yr ysgol i wella.

Mae llywodraethwyr yn gwerthfawrogi’r cyfle i siarad â disgyblion a rhieni. Maent yn defnyddio’r cyfleoedd hyn i gasglu tystiolaeth uniongyrchol ar agweddau amrywiol ar waith yr ysgol. Mae hyn wedi golygu bod llywodraethwyr yn fwy gwybodus am fywyd yr ysgol o ddydd i ddydd a phrofiadau disgyblion, sy’n eu galluogi i holi uwch arweinwyr â thrylwyredd cynyddol.

Mae gan awdurdod lleol y pŵer i ymyrryd mewn ysgol a gynhelir lle mae ganddynt bryderon dros ei heffeithiolrwydd. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai bydd awdurdodau lleol yn arfer eu pwerau ymyrryd i ofyn i’r corff llywodraethol sicrhau cyngor neu gydweithio, penodi llywodraethwyr ychwanegol, atal yr awdurdod dirprwyedig ar gyfer cyllideb yr ysgol, penodi Bwrdd Gweithredol Dros Dro, rhoi cyfarwyddiadau i’r corff llywodraethol neu’r pennaeth neu gymryd unrhyw gamau eraill.

Pan fydd ysgolion yn wynebu anhawster, mae awdurdodau lleol yn aml yn penodi llywodraethwyr ychwanegol a phrofiadol sy’n meddu ar ystod o fedrau i fod o fudd i’r ysgol ar ei thaith i wella. Mae’r aelodau ychwanegol yn helpu cynyddu medrau aelodau presennol ac yn cryfhau’r corff llywodraethol yn gyffredinol. Fel arfer, maent yn bobl brofiadol, wedi’u dewis yn ofalus sydd ag ystod eang o wahanol fedrau i helpu symud yr ysgol ymlaen. Fel arfer, maent wedi bod yn aelod o gorff llywodraethol llwyddiannus mewn ysgol leol arall. Yn ychwanegol, mae’r awdurdod lleol yn aml yn penodi cadeirydd llywodraethwyr i helpu arwain yr ysgol trwy ei thaith i wella.

Mae’r llywodraethwyr ychwanegol fel arfer yn aros yn aelodau o’r corff llywodraethol hyd nes bydd dim eu hangen ar yr ysgol mwyach. Mewn un ysgol gynradd yng Nghaerdydd yn benodol, roedd y llywodraethwyr ychwanegol yn hynod effeithiol o ran cefnogi’r ysgol ar ei thaith i wella.

Ym mis Hydref 2018, ar ôl arolygiad, gosodwyd **Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant** yng Nghaerdydd yn y categori mesurau arbennig gan Estyn. Ymyrrodd awdurdod lleol Caerdydd yn gyflym i gefnogi'r ysgol. Roedd y tîm arolygu wedi nodi gwendidau difrifol iawn yng ngwaith y corff llywodraethol ac roedd gan yr aelodau newydd fedrau i helpu'r ysgol i fynd i'r afael â'r problemau. Yn hanesyddol, roedd yr ysgol wedi cael anawsterau yn denu pobl â'r medrau cywir i fod yn llywodraethwyr i helpu symud yr ysgol ymlaen.

Penododd yr awdurdod lleol dri llywodraethwr ychwanegol ar gorff llywodraethol yr ysgol i gryfhau ei aelodaeth. Cawsant eu dewis yn ofalus fel llywodraethwyr profiadol a oedd yn meddu ar ystod o wahanol fedrau. Roeddent i gyd yn Gatholigion gweithredol, ac felly'n deall natur addysg ffydd. Hefyd, cymerodd yr awdurdod lleol reolaeth o benodi cadeirydd y llywodraethwyr a goruchwylio cyllideb yr ysgol.

Yn ychwanegol i hyn, mynychodd uwch swyddogion yr awdurdod lleol gyfarfodydd y corff llywodraethol i fodelu her i arweinwyr a chefnogi gosod y gyllideb. Trefnodd yr awdurdod lleol hyfforddiant teilwredig ar gyfer llywodraethwyr, yn enwedig ar graffu ar ddata ysgol ac i gryfhau eu rôl fel ffrindiau beirniadol effeithiol i herio a chynorthwyo uwch arweinwyr yn fwy effeithiol. Creon nhw gynllun datblygu teilwredig i lywodraethwyr a oedd yn cynnwys ystod o hyfforddiant yr oedd disgwyl i lywodraethwyr ei fynychu.

Ym mis Mai 2022, pan symudodd Estyn yr ysgol o fesurau arbennig, tynnodd yr awdurdod lleol ei gymorth yn ôl, ac roedd llywodraethwyr yn gallu penodi eu cadeirydd eu hunain. Maent yn teimlo nawr eu bod mewn sefyllfa i ddenu llywodraethwyr sydd â'r medrau priodol. Maent yn archwilio medrau llywodraethwyr yn rheolaidd. Mae ganddynt lywodraethwyr sydd ag amrywiaeth eang o gefndiroedd gwahanol, gan gynnwys y rhai â chefndiroedd addysg, cyfreithwyr, rheolwyr ariannol a phobl fusnes leol. Mae'r ysgol yn teimlo bod pob aelod o'r corff llywodraethol bellach yn cyfrannu at gyfarfodydd a phenderfyniadau a bod ganddynt y medrau i fod yn arweinwyr strategol effeithiol.

# Atebolrwydd: Dwyn arweinwyr i gyfrif a gweithredu fel ffrind beirniadol

Yn ogystal ag arweinyddiaeth strategol, un o swyddogaethau craidd eraill corff llywodraethol yw creu diwylliant o atebolrwydd cadarn ar gyfer uwch arweinwyr. Mae hyn yn golygu eu dwyn i gyfrif am berfformiad addysgol, lles disgyblion a staff ac am ddefnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau ariannol yr ysgol, gan gynnwys sicrhau bod arian yn cael ei wario'n ddoeth ac er budd disgyblion. Mae rôl llywodraethwyr mewn dwyn arweinwyr i gyfrif ynglŷn â monitro gwelliant, yn ei hanfod. Gallai hyn gynnwys sefydlu disgwyliadau clir, sicrhau llinellau cyfrifoldeb diffiniedig, rhoi systemau ar waith ar gyfer monitro'n briodol a sicrhau bod gwerthuso'n arwain at gamau sy'n sicrhau gwelliant.

## Gosod disgwyliadau uchel

Dylai'r corff llywodraethol osod ethos o ddisgwyliadau uchel gan bawb yng nghymuned yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad, cynnydd a chyrhaeddiad yr holl ddisgyblion, ac ar gyfer ymddygiad a phroffesiynoldeb staff a'r corff llywodraethol.

Bron ym mhob ysgol, dywed llywodraethwyr eu bod yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob aelod o gymuned yr ysgol. Maent yn aml yn cysylltu hyn ag edrych ar ddata disgyblion a gosod targedau a sicrhau bod disgyblion yn cyflawni cystal ag y gallant, ac yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o ysgolion, nid oes gan lywodraethwyr ddealltwriaeth ddigon eang o'u rôl mewn sicrhau disgwyliadau uchel ym mhob agwedd ar waith yr ysgol. Mewn lleiafrif o ysgolion yn unig y mae llywodraethwyr yn herio uwch arweinwyr yn effeithiol i helpu gyrru gwelliant ysgol gyfan.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r pennaeth ac aelodau staff eraill yn rhoi ystod eang o wybodaeth reolaidd i lywodraethwyr, er enghraifft am safonau disgyblion. Er bod llywodraethwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion yn dweud eu bod yn deall gwybodaeth sy'n cael ei chyflwyno iddynt, mae gormod o amrywiad yn y ffordd y maent yn defnyddio'r dystiolaeth hon i ddwyn arweinwyr i gyfrif am berfformiad disgyblion. Yn yr ysgolion prin lle mae arferion ar eu cryfaf, mae llywodraethwyr yn defnyddio cwestiynau i brocio am fwy o wybodaeth a'u helpu i ddeall perfformiad gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Mewn ychydig o ysgolion yn unig y mae llywodraethwyr yn gofyn i arweinwyr am wybodaeth ychwanegol i'w helpu i ddeall cynnydd disgyblion.

## Herio uwch arweinwyr ysgolion

Mewn llawer o ysgolion, dywed llywodraethwyr eu bod yn herio arweinwyr ysgolion yn effeithiol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion yn unig y ceir tystiolaeth ddigonol i awgrymu bod yr her hon yn effeithiol o ran dwyn arweinwyr i gyfrif, a'i fod yn gwneud gwahaniaeth i berfformiad ysgol. Mewn ychydig o ysgolion lle mae'r her ar ei chryfaf, mae llywodraethwyr yn darllen, yn deall, ac yn amgyffred gwybodaeth sy'n cael ei chyflwyno iddynt gan arweinwyr, ac yn defnyddio'u profiadau eu hunain a

thystiolaeth uniongyrchol i ffurfio cwestiynau i herio arweinwyr ar wahanol agweddau ar waith yr ysgol.

Yn **Ysgol Gymraeg Brynsierfel** yn Sir Gaerfyrddin, dim ond 5% o ddisgyblion sy'n dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Roedd llywodraethwyr yn ymwybodol na fyddai llawer o'u disgyblion yn cael eu hamlygu i'r Gymraeg yn rheolaidd yn ystod cyfnodau pan oedd yr ysgol ar gau yn ystod y pandemig. Fe wnaethant herio arweinwyr ynglŷn â beth roedd yr ysgol yn ei wneud i wella medrau Cymraeg y disgyblion hyn ar ôl Covid-19. I ymateb i hynny, cyflwynodd y pennaeth gynllun i'r llywodraethwyr ynglŷn â sut roeddent yn datblygu patrymau iaith, berfau, ac yn buddsoddi mewn adnoddau a chymorth ychwanegol.

Mewn gormod o ysgolion, mae gan lywodraethwyr ddarlun mwy cadarnhaol am lefel eu her nag y mae penaethiaid yn ei grybwyll. Mae'n ymddangos bod her yn fwyaf effeithiol pan mae yna lywodraethwyr sydd â chefndir addysgol neu lywodraethwyr profiadol sydd â dealltwriaeth dda iawn o ysgol lwyddiannus.

Yn **Ysgol Feithrin Tremorfa** yng Nghaerdydd, roedd arweinwyr eisiau anfon athrawon i Reggio Emilia yn Yr Eidal i arsylwi arfer effeithiol yn y blynyddoedd cynnar. Gofynnodd aelodau o'r corff llywodraethol i'r pennaeth gwblhau achos busnes cyn iddynt gytuno i'r gwariant.

### Rôl llywodraethwyr mewn gwella ysgolion

Mewn llawer o ysgolion, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth eang o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella sut maent yn cysylltu â hunanwerthuso ysgol gyfan. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ar ddechrau pob blwyddyn ysgol, mae'r pennaeth yn esbonio blaenoriaethau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn honno, ac mae cyfleoedd i lywodraethwyr ofyn cwestiynau ynglŷn â pham mae'r agweddau hyn ar waith yr ysgol wedi cael eu blaenoriaethu. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae llywodraethwyr yn deall y cysylltiad rhwng blaenoriaethau ar gyfer gwella a chanfyddiadau hunanwerthuso a monitro yn glir.

**Barn llywodraethwyr ar sut maent yn gwybod beth sy'n digwydd yn eu hysgol**

| | | Canran Ymateb |
|---|---|---|
| 1 | Adroddiadau'r pennaeth | 98% |
| 2 | Ymweliadau â'r ysgol | 82% |
| 3 | Rhannwyd data â nhw | 79% |
| 4 | Cynllun datblygu ysgol neu gynllun gwella ysgol | 83% |
| 5 | Adroddiad hunanwerthuso'r ysgol | 63% |
| 6 | Cyflwyniadau ac adroddiadau gan arweinwyr ysgolion ac aelodau staff eraill | 81% |
| 7 | Adroddiadau gan yr awdurdod lleol neu'r gwasanaethau gwella ysgolion | 33% |
| 8 | Siarad â rhanddeiliaid (e.e. disgyblion neu rieni) | 57% |
| 9 | Adroddiadau Estyn | 54% |
| 10 | Arall (nodwch): | 6% |

*Mae canrannau'n seiliedig ar ymatebion gan 352 o lywodraethwyr.*

Mewn ychydig o ysgolion, mae'r pennaeth yn gwahodd llywodraethwyr i'r ysgol bob blwyddyn i weithio ochr yn ochr â staff ysgol ar ddiwrnodau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Yn yr ysgolion hyn, yn aml, mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth fwy cadarn o'r cysylltiadau rhwng canfyddiadau hunanwerthuso ysgolion a'r targedau ar gyfer gwella am fod ganddynt brofiad uniongyrchol o gyfrannu at y broses hon. Mae llywodraethwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle sy'n cael ei roi iddynt gan yr ysgolion hyn. Yn y ddwy ysgol hon, mae llywodraethwyr yn cymryd rhan mewn diwrnodau hunanwerthuso blynyddol buddiol.

Yn **Ysgol Gynradd Pontnewydd** yn Nhorfaen, bob blwyddyn, mae uwch arweinwyr yn gwahodd llywodraethwyr i fynychu diwrnod HMS ar hunanwerthuso. Mae llywodraethwyr yn gweithio mewn timau gydag aelodau staff i edrych ar gynnydd ar agwedd ar y cynllun datblygu ysgol, a defnyddir y wybodaeth hon i gefnogi'r adroddiad hunanwerthuso. Mae cadeirydd y llywodraethwyr yn cyflwyno yn y cyfarfodydd hyn gan fod cynllun gweithredu blynyddol llywodraethwyr wedi'i gynnwys yn y cynllun gwella ysgol. Mae llywodraethwyr yn barnu'r cynnydd y maent wedi'i wneud ar fodloni eu targedau.

Yn **Ysgol Gynradd Penygawsi** yn Rhondda Cynon Taf, mae'r pennaeth wedi sefydlu 'Diwrnodau Rhoi Gwelliant ar Waith', sef diwrnodau lle gwahoddir llywodraethwyr i dreulio diwrnod yn yr ysgol i gymryd rhan mewn gweithgareddau hunanwerthuso sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r fenter yn dda ac yn gwerthfawrogi'r cyfle y mae'n ei roi. Yn ystod y diwrnodau, mae llywodraethwyr yn cael cyflwyniadau gan staff, yn enwedig y rhai sy'n arwain blaenoriaethau gwella. Wedyn, maent yn edrych ar waith disgyblion, yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu ac yn gwrando ar ddisgyblion mewn amrywiaeth o weithgareddau. Wedyn, mae'r llywodraethwyr yn defnyddio'r wybodaeth y maent wedi'i chasglu wrth adolygu cynnydd yr ysgol yn erbyn ei blaenoriaethau gwella.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llywodraethwyr yn cael gwybodaeth am y cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud tuag at fodloni eu blaenoriaethau trwy'r adroddiadau tymhorol gan eu pennaeth, a gwybodaeth arall a rennir â nhw. Yn aml, mae hyn yn cynnwys cyflwyniadau gan aelodau staff. Yn yr ysgolion cryfaf, pan gyflwynir y wybodaeth iddynt, mae llywodraethwyr yn gofyn cwestiynau targedig, yn enwedig pan nad yw'r ysgol yn gwneud cynnydd disgwyliedig o leiaf tuag at fodloni eu targedau ar gyfer gwella.

Yn **Ysgol Gynradd Gatholig San Helen** yn Abertawe, mae llywodraethwyr yn cael adroddiadau chwarterol gan y pennaeth ac aelodau staff eraill sy'n cyfrannu gyda diweddariadau ar beth sy'n digwydd yn eu dosbarth, a sut mae hyn yn cysylltu â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Maent yn teimlo bod hon yn ffordd ragorol o roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am beth sy'n digwydd yn yr ysgol ac yn eu helpu i herio arweinwyr â chwestiynau am ddatblygiadau.

### Casglu gwybodaeth uniongyrchol

Mae mwyafrif y llywodraethwyr yn ymweld â'u hysgolion yn rheolaidd am resymau anffurfiol. Maent yn mynychu digwyddiadau, fel gwasanaethau a chyngherddau ysgol, ac yn aml yn cymryd rhan mewn cyflwyno gwobrau ysgol. Mewn ysgolion cynradd yn benodol, mae llywodraethwyr yn helpu â thripiau ysgol yn achlysurol, ac mewn lleiafrif o ysgolion, yn gwirfoddoli mewn ystafelloedd dosbarth, er enghraifft i wrando ar ddisgyblion yn darllen. Trwy'r gwaith hwn, mae llywodraethwyr yn ennill mewnwelediad pwysig i waith yr ysgol o ddydd i ddydd ac yn dod yn wynebau cyfarwydd i staff, disgyblion a rhieni.

Dros y blynyddoedd diwethaf, o ganlyniad i gyfyngiadau yn gysylltiedig â phandemig COVID-19, mae cyfleoedd i lywodraethwyr ymweld ag ysgolion ar gyfer monitro ffurfiol a rhesymau anffurfiol wedi bod yn gyfyngedig. Mae hyn wedi cael effaith fawr ar allu llywodraethwyr i ennill gwybodaeth uniongyrchol. Mewn un ysgol yn awdurdod lleol Caerffili, defnyddiodd y pennaeth ffyrdd arloesol o sicrhau bod llywodraethwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd i ennill mewnwelediad i waith yr ysgol.

Ar ddechrau'r pandemig, dechreuodd pennaeth **Ysgol Lewis i Ferched** yng Nghaerffili ychwanegu dolenni at ddogfennau a fideos at ei hadroddiad tymhorol fel pennaeth. Cysylltodd hi hyn â rhywbeth thematig a oedd yn digwydd yn yr ysgol. Er enghraifft, fe wnaeth hi gynnwys dolenni at grynodebau o waith yr oedd yr ysgol wedi'i wneud ynglŷn â newid y cwricwlwm, diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) neu unrhyw weithgareddau sicrhau ansawdd yr oedd yr ysgol wedi'u cynnal. Hefyd, darparodd ddolenni at recordiadau o banelau llais myfyrwyr. Edrychodd llywodraethwyr ar y dystiolaeth cyn un o gyfarfodydd y corff llywodraethol, ac wedyn postio cwestiynau i arweinwyr eu herio yn y cyfarfod. Roedd hyn yn hynod effeithiol pan nad oedd llywodraethwyr yn gallu ymweld â'r ysgol o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19.

Mae llywodraethwyr wedi ailddechrau ymweld â'r ysgol yn rheolaidd erbyn hyn. Er enghraifft, mae llywodraethwyr yn cyfarfod â'r pennaeth a'r partner gwella ysgolion, ac yn siarad â disgyblion yn rheolaidd. Nid yw pob un o'r llywodraethwyr yn gallu mynd i'r ysgol yn rheolaidd, fodd bynnag, ac felly mae'r dolenni sydd wedi'u hatodi i adroddiad y pennaeth i lywodraethwyr yn sicrhau eu bod yn cael rhywfaint o wybodaeth uniongyrchol o hyd.

Mewn llawer o ysgolion, mae llywodraethwyr yn gysylltiedig ag agweddau penodol ar waith yr ysgol, gan gynnwys adrannau, Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh) neu ddosbarthiadau unigol. Yn aml, mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol i gyfarfod, er enghraifft ag athro arweiniol MDPh, neu i dreulio amser mewn ystafelloedd dosbarth. Mae'r gweithgareddau hyn yn ddefnyddiol o ran eu helpu i ddeall agweddau ar bwnc penodol. Fodd bynnag, ym mwyafrif yr ysgolion, ni chaiff yr ymweliadau hyn eu cynllunio'n ddigon da gyda ffocws clir i sicrhau bod llywodraethwyr yn gallu eu defnyddio i lunio barnau am waith yr ysgol.

**Gweithgareddau y mae llywodraethwyr yn dweud eu bod yn eu cynnal yn ystod eu hymweliadau â'r ysgol**

| | | | Canran Ymateb |
|---|---|---|---|
| 1 | Wedi treulio amser mewn ystafelloedd dosbarth unigol | | 45% |
| 2 | Yn cynnal teithiau dysgu i ymweld â llawer o ystafelloedd dosbarth | | 55% |
| 3 | Siarad â disgyblion am eu gwaith | | 56% |
| 4 | Siarad â staff | | 71% |
| 5 | Edrych ar waith disgyblion ar eu pen eu hunain neu gyda llywodraethwyr eraill | | 42% |
| 6 | Edrych ar waith disgyblion gydag aelodau staff i roi arweiniad iddynt ar beth i chwilio amdano | | 38% |
| 7 | Cyfarfod â staff yr awdurdod lleol neu'r consortiwm | | 23% |
| 8 | Cyfarfod â'r pennaeth neu arweinwyr eraill | | 80% |
| 9 | Mynychu digwyddiadau ysgol fel cyngherddau, gwasanaethau, neu ddiwrnod mabolgampau | | 76% |
| 10 | Arall (roedd yn cynnwys clywed disgyblion yn darllen a gweithgareddau cymunedol) | | 9% |

*Mae canrannau'n seiliedig ar ymatebion gan 310 o lywodraethwyr.*

At ei gilydd, mae'r amser a dreulir gan lywodraethwyr yn eu hysgolion yn casglu tystiolaeth uniongyrchol yn amrywio gormod. Dim ond mewn ychydig o ysgolion y

mae llywodraethwyr yn defnyddio eu hymweliadau i ennill gwybodaeth o ansawdd uchel i'w helpu i farnu cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud tuag at fodloni eu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Bron ym mhob ysgol, mae llywodraethwyr yn briodol o ymwybodol nad eu rôl nhw yw llunio barnau am ansawdd yr addysgu. Yn yr ysgolion canlynol, mae llywodraethwyr yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod ymweliadau ag ysgolion yn dda i driongli gwybodaeth y mae uwch arweinwyr yn ei darparu ar eu cyfer.

Mae **Ysgol Gynradd Abererch** yn ysgol gynradd fach cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd. Gan fod cyfyngiadau o ganlyniad i COVID-19 wedi cael eu codi, mae llywodraethwyr wedi ailddechrau cynnal eu hymweliadau rheolaidd â'r ysgol. Ceir amserlen i helpu cynllunio eu hymweliadau a chaniatáu cyfleoedd i gynnal teithiau dysgu, sgwrsio â disgyblion ac edrych ar waith disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu samplau o waith er mwyn i lywodraethwyr allu gweld y safonau disgwyliedig ar gyfer gwahanol grwpiau blwyddyn. Mae ffocws penodol i bob ymweliad sy'n cyd-fynd ag un o flaenoriaethau'r ysgol, er enghraifft gwella'r amgylchedd dysgu.

Mae llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan aelodau staff hefyd, er enghraifft am safonau disgyblion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o ymweliadau ochr yn ochr ag adroddiadau gan uwch arweinwyr i'w helpu i herio a chwestiynu agweddau ar waith yr ysgol. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi gofyn am esboniad ynglŷn â pham mae safonau disgyblion mewn llythrennedd islaw safonau mewn rhifedd.

**Ysgol Plas Brondyffryn** yw canolfan ranbarthol addysg awtistiaeth yng Ngogledd Cymru. Ceir cysylltiad clir rhwng ymweliadau y mae llywodraethwyr yn eu gwneud â'r ysgol a'u gallu i werthuso cynnydd yn y cynllun gwella ysgol. Mae llywodraethwyr cyswllt yn gwneud ymweliadau sydd wedi'u targedu i'w galluogi i werthuso blaenoriaethau penodol. Maent yn defnyddio arweiniad wedi'i ddarparu iddynt gan uwch arweinwyr i'w cynorthwyo i ofyn cwestiynau perthnasol. Mae llywodraethwyr cyswllt yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ac yn cofnodi eu canfyddiadau. Wedyn, maent yn rhannu adroddiad ysgrifenedig gyda llywodraethwyr eraill yng nghyfarfod nesaf y corff llywodraethol llawn fel bod pob un o'r llywodraethwyr yn cael cyfle i drafod a gofyn cwestiynau am eu canfyddiadau.

Yn **Ysgol Gynradd Doc Penfro** yn Sir Benfro, mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Maent yn cynnal teithiau dysgu rheolaidd, wedi'u harwain naill ai gan staff neu ddisgyblion i edrych ar gynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau gwella ysgol. Er enghraifft, mae ffocws ysgol gyfan diweddar wedi bod ar wella mathemateg, felly mae llywodraethwyr wedi arsylwi gwersi mathemateg i edrych ar y newidiadau mewn arferion, siarad â disgyblion ac edrych ar eu gwaith. Maent yn gofyn cwestiynau i ddisgyblion am fentrau ysgol newydd i gael eu barn.

Mae llywodraethwyr cyswllt yn cynnal teithiau dysgu yn gysylltiedig â chynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud tuag at gyflwyno meysydd dysgu a phrofiad, sydd hefyd yn gysylltiedig â blaenoriaethau gwella. Maent yn cyfarfod ag arweinwyr ac yn treulio amser mewn ystafelloedd dosbarth.

Ar ôl pob ymweliad, mae llywodraethwyr yn llenwi holiadur ar eu canfyddiadau, yn amlinellu unrhyw gryfderau a meysydd y maent yn meddwl sydd angen eu gwella. Maent yn ystyriol o'u rôl fel llywodraethwyr ac nad ydynt yno i lunio barnau ar safonau addysgu, er enghraifft. Mae yna agweddau eraill ar waith yr ysgol, fodd bynnag, lle maent mewn sefyllfa i gynnig barn arnynt.

Er enghraifft, roedd gan lywodraethwyr bryderon am yr amgylchedd dysgu yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu gan fod angen ei pheintio. Crybwyllwyd hyn yng nghyfarfod nesaf y corff llywodraethol, gweithredwyd yn unol â'r pryder, ac wedyn ailymwelon nhw â'r ystafell ddosbarth eto i weld pa newidiadau oedd wedi cael eu gwneud.

Mewn gormod o ysgolion, nid yw llywodraethwyr yn defnyddio eu hymweliadau ag ysgolion i gasglu tystiolaeth uniongyrchol i lywio eu gwerthusiadau o berfformiad yr ysgol yn ddigon da. Dim ond mewn lleiafrif o ysgolion y mae llywodraethwyr yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn rheolaidd i'w helpu i herio arweinwyr a sicrhau bod ganddynt ddarlun uniongyrchol cywir o agweddau ar waith yr ysgol.

Yn yr ysgol hon yn Llanelli, roedd pennaeth newydd ei benodi yn pryderu nad oedd llywodraethwyr yn cyflawni eu rôl yn ddigon da. Yn fuan ar ôl iddo gyrraedd, gosododd Estyn yr ysgol yn y categori mesurau arbennig gydag argymhelliad i ddatblygu gallu'r corff llywodraethol i gefnogi'r ysgol yn strategol.

Yn **Ysgol Gynradd Y Bryn** yn Sir Gaerfyrddin, pan benodwyd y pennaeth i ddechrau, sylweddolodd nad oedd gan lywodraethwyr berthynas gref ag arweinwyr yr ysgol, ac ychydig iawn yr oeddent yn ymgysylltu â bywyd ysgol o ddydd i ddydd. I helpu mynd i'r afael â hyn, trefnodd gyfleoedd rheolaidd i lywodraethwyr ymweld â'r ysgol i helpu meithrin perthnasoedd â staff a'u galluogi i ddod i wybod am addysg gynradd yng Nghymru. Estynnodd wahoddiad i lywodraethwyr fynychu gweithgareddau monitro wedi'u harwain gan arweinwyr yr ysgol, a rhoddodd amrywiaeth o sbardunau a chwestiynau iddynt er mwyn eu helpu i ofyn cwestiynau perthnasol i staff. Wrth i amser fynd rhagddo, ac wrth i lywodraethwyr fagu hyder yn eu rôl, tynnodd y sbardunau a chwestiynau enghreifftiol yn ôl. Mae'r broses hon wedi parhau ac mae llywodraethwyr yn gwneud ymweliadau ffocysedig â'r ysgol yn rheolaidd i gyfarfod ag aelodau staff i drafod blaenoriaethau gwella'r ysgol. Ar ôl pob ymweliad, mae'r llywodraethwr yn llenwi ffurflen werthuso yn amlinellu cryfderau ac yn trafod targedau y mae'r athro'n dymuno mynd i'r afael â nhw cyn yr ymweliad nesaf. Wedyn, mae llywodraethwyr yn cyflwyno'u canfyddiadau yng nghyfarfod nesaf y corff llywodraethol.

Mae'r broses hon wedi galluogi llywodraethwyr i gael dealltwriaeth fwy cadarn o waith yr ysgol, a sicrhau eu bod yn defnyddio canfyddiadau eu hymweliadau yn fuddiol i helpu'r ysgol i fodloni blaenoriaethau gwella'r ysgol.

### Cefnogi lles disgyblion

Bron ym mhob ysgol, mae llywodraethwyr yn cytuno bod lles disgyblion a staff yn cael lle blaenllaw yn eu gwaith. Maent yn teimlo bod hyn wedi cael ei gryfhau ers dechrau'r pandemig. Yn benodol, mae llywodraethwyr yn deall eu rôl yn cefnogi lles y pennaeth. Mae mwyafrif yr ysgolion wedi sefydlu pwyllgor lles sydd wedi ymrwymo i drafod rôl yr ysgol mewn cefnogi lles pob aelod o gymuned yr ysgol.

## Rheolaeth ariannol

Rhaid bod gan lywodraethwyr y medrau a'r wybodaeth i allu gwneud penderfyniadau gwybodus ac effeithiol am ddefnyddio adnoddau a dyrannu cyllid i wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae hyn yn helpu sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac er lles pennaf yr ysgol. Ym mwyafrif yr ysgolion, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth addas o wybodaeth ariannol a gyflwynwyd iddynt gan arweinwyr ysgolion a swyddogion awdurdodau lleol. Gallant wneud penderfyniadau gwybodus er budd disgyblion.

Roedd yn amlwg o'n trafodaethau â llywodraethwyr ac uwch arweinwyr bod llywodraethwyr ar y pwyllgor cyllid sydd â chefndir ariannol mewn llawer o ysgolion, er enghraifft cyfrifwyr a rheolwyr cyllid. Mewn ysgolion heb lywodraethwr sydd â chefndir o'r fath, yn aml, maent yn chwilio am lywodraethwyr newydd sydd â gwybodaeth ariannol gan eu bod yn gwerthfawrogi manteision hyn wrth ddelio â materion ariannol. Mae'r medrau hyn yn helpu gosod a monitro cyllideb yr ysgol. Mewn ysgolion eraill, mae llawer o lywodraethwyr wedi bod yn aelodau o'r corff llywodraethol am flynyddoedd lawer ac wedi datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion ariannol trwy gydol cyfnod eu swydd mewn ffordd sy'n cefnogi'r ysgol yn llwyddiannus. Mewn ychydig o ysgolion, fodd bynnag, dywed llywodraethwyr fod gwybodaeth ariannol yn cael ei chyflwyno mewn fformat sy'n anodd ei ddeall. O ganlyniad, rhaid iddynt ofyn llawer o gwestiynau cyn deall y ffigurau y gofynnwyd iddynt graffu arnynt.
Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llywodraethwyr yn deall bod angen alinio gwariant ysgol â blaenoriaethau gwella'r ysgol, ac maent yn deall eu rôl mewn monitro hyn. Ym mwyafrif yr ysgolion, mae llywodraethwyr yn ei chael yn anodd cynllunio a monitro gwariant pan fydd arian yn ymddangos yng nghyllideb yr ysgol yn annisgwyl, er enghraifft grantiau gan Lywodraeth Cymru. Maent yn aml dan bwysau i esbonio hyn ar fyr rybudd, gan gynnwys sut byddant yn gwario arian dros ben pan nad ydynt wedi cynllunio'n strategol ar ei gyfer. Mewn ychydig o ysgolion, dywed llywodraethwyr eu bod yn ei chael yn anodd cynllunio lefelau staffio pan na allant ragamcanu cyllid yr ysgol yn gywir. Yn yr achosion mwyaf difrifol, oherwydd grantiau hwyr, mae aelodau staff wedi colli eu swyddi, pan allai'r ysgol fod wedi cadw eu swyddi'n agored, mewn gwirionedd.

Ym mwyafrif yr ysgolion, byddai llywodraethwyr yn croesawu hyfforddiant mwy penodol ar sut i reoli eu cyllideb. Yn awdurdod lleol Powys, mae llywodraethwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt trwy fynychu cymorthfeydd cyllid yr awdurdod lleol.


# Pobl – Yn cynnwys meithrin tîm cryf

## Meithrin tîm effeithiol

Mae effeithiolrwydd corff llywodraethol yn cyflawni ei amcanion strategol fel arfer yn dibynnu ar ansawdd ei lywodraethwyr a pha mor gynhyrchiol maent yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion. Mae'r egwyddorion a'r priodoleddau personol sydd gan unigolion i'w cynnig i'r corff llywodraethol yr un mor bwysig â'u medrau a'u gwybodaeth. Mae'r rhinweddau hyn yn galluogi aelodau bwrdd i ddefnyddio eu medrau a'u gwybodaeth i weithredu'n dda fel rhan o dîm, ac yn gwneud cyfraniad gweithredol at lywodraethu effeithiol.

Mae'n bryderus edrych ar y ffigurau ar gyfer swyddi gwag i lywodraethwyr ledled Cymru ar hyn o bryd. Mae ysgolion yn ei chael yn gynyddol anodd recriwtio llywodraethwyr. Yn 2021-2022, roedd 1727 o swyddi gwag ar gyrff llywodraethol mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r duedd o ran swyddi gwag wedi codi dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

**Nifer y swyddi gwag ar gyrff llywodraethol ysgolion ar Ddiwrnod Cyfrifiad mewn ysgolion cynradd, ysgolion canol, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig yn ôl Awdurdod Lleol a Blwyddyn**




| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 309 | 335 | 344 | 354 | 393 | 407 | 378 | 349 | 444 | 507 |
| De Orllewin a Chanolbarth Cymru | 421 | 377 | 429 | 432 | 497 | 466 | 448 | 440 | 457 | 547 |
| Canol De Cymru | 350 | 369 | 380 | 403 | 400 | 431 | 367 | 338 | 413 | 426 |
| De Ddwyrain Cymru | 216 | 215 | 195 | 252 | 216 | 228 | 238 | 253 | 276 | 247 |

Gogledd Cymru · De Orllewin a Chanolbarth Cymru · Canol De Cymru · De Ddwyrain Cymru

Mae'r her i recriwtio llywodraethwyr yn amrywio'n fawr ledled y wlad. Mewn rhannau o Gymru, ni chaiff ysgolion lawer o anhawster yn recriwtio llywodraethwyr. Mae'r ysgolion hyn yn tueddu i fod mewn ardaloedd trefol mwy cefnog lle mae carfan fwy o wirfoddolwyr sy'n fodlon gweithio gydag ysgolion. Fodd bynnag, mewn rhannau eraill o'r wlad, mae recriwtio yn anoddach. Mae'r ysgolion hyn yn bryderus fod ganddynt swyddi gwag ar eu corff llywodraethol yn rheolaidd, a'u bod yn cael trafferth denu rhieni i ymgeisio pan fydd swydd wag ar gyfer rhiant-lywodraethwr. Mae'n ymddangos hefyd fod ysgolion mwy llwyddiannus yn ei chael yn haws denu llywodraethwyr na'r rhai sydd wedi cael eu gosod mewn categori statudol.

Mae **Governors for Schools** yn elusen annibynnol sefydledig. Yn 2020, lansiwyd Governors for Schools Cymru i gefnogi ysgolion ledled Cymru i gael eu cynnal yn effeithiol trwy ddod o hyd i lywodraethwyr o'r radd flaenaf i gynnig eu medrau a'u harbenigedd. Mae'n dod o hyd i wirfoddolwyr ac yn eu rhoi i weithio ar gyrff llywodraethol ysgolion ledled Cymru. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn cysylltu â'r sefydliad pan fydd angen cymorth arnynt i lenwi swydd wag ar gorff llywodraethol, gan gynnwys nodi unrhyw arbenigedd sydd ei angen arnynt. Yn ychwanegol, mae'r elusen hefyd yn recriwtio gwirfoddolwyr cyffredinol ac wedyn yn eu paru ag ysgolion. Mae ganddi rôl mewn gwella amrywiaeth ar gyrff llywodraethol, er enghraifft trwy ei gwaith partneriaeth â phrifysgolion a busnesau. Mae'n annog pobl i ddod yn llywodraethwyr. Mae hefyd yn cynnig amrywiaeth o fodiwlau a seminarau e-ddysgu, gydag ychydig ohonynt yn canolbwyntio ar y Cwricwlwm i Gymru.

Hyd yma, mae'r drefn o ran llenwi swyddi gwag yng Nghymru wedi cael ei harwain gan awdurdodau lleol yn bennaf, yn enwedig yn Ne Cymru. Mae'n cydnabod bod angen iddi gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith ysgolion ac mewn rhannau eraill o'r wlad.

Mae Prifysgol Caerdydd yn enghraifft dda o sefydliad sy'n mynd ati i annog staff i ymgeisio i ddod yn llywodraethwyr ysgol. Mae arweinwyr yn y brifysgol yn cydnabod y manteision y gall hyn eu cynnig i unigolyn.

Yn 2019, cyflwynodd **Prifysgol Caerdydd** raglen fel rhan o'i chenhadaeth ddinesig, gyda'r nod o annog staff y brifysgol i ddod yn llywodraethwyr ysgol. Gweithiodd y brifysgol gyda phartneriaid eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol a Governors for Schools a phennu bod diffyg llywodraethwyr medrus mewn ysgolion. Mae'r cynllun yn cefnogi ac yn annog staff i ddod yn llywodraethwyr ysgol. Hyd yma, mae tua 100 o aelodau staff wedi cofrestru i fod yn llywodraethwyr ysgol. Mae'r brifysgol yn trefnu sesiynau i recriwtio staff newydd yn rheolaidd, gan gynnwys rhannu clipiau hyfforddi ac astudiaethau achos.

Yn ogystal â darparu gwasanaeth buddiol ar gyfer ysgolion lleol, mae'n teimlo bod staff y brifysgol yn elwa'n aruthrol ar y cynllun. Wedi i aelod staff ddod yn llywodraethwr, mae'r brifysgol yn ei gefnogi trwy hyfforddiant a chyfarfodydd rheolaidd i rannu ei brofiadau.

Mewn lleiafrif o ysgolion, mae llywodraethwyr yn ffodus, pan fydd swydd wag yn codi, eu bod fel arfer yn gallu recriwtio llywodraethwr newydd oddi mewn i'w cymuned leol i lenwi unrhyw fylchau mewn medrau y maent wedi'u nodi. Fodd bynnag, nid yw hynny'n wir ym mhob ysgol, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan annhegwch ariannol neu dlodi, rhannau gwledig o'r wlad ac mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Yn **Ysgol Uwchradd Whitmore** ym Mro Morgannwg, mae'r ysgol yn annog ceisiadau yn rheolaidd gan unigolion i fod yn llywodraethwyr cymunedol a rhiant-lywodraethwyr er mwyn sicrhau bod gan y corff llywodraethol ystod briodol o fedrau ac arbenigedd. Mae hyn wedi gwella gwaith y corff yn fawr ac yn galluogi uwch arweinwyr i alw ar lywodraethwyr am gyngor a chymorth priodol, lle mae angen.

Yn ychwanegol, mae yna ychydig o ysgolion sy'n penodi neu'n cyfethol llywodraethwyr heb hawliau pleidleisio yn effeithiol i ymuno â'r corff llywodraethol am gyfnodau amser byr i helpu llenwi bylchau mewn medrau neu gynorthwyo'r ysgol â phrosiectau penodol.

Yn **Ysgol Uwchradd Argoed** yn Sir y Fflint, mae llywodraethwyr yn defnyddio eu harchwiliad medrau blynyddol i nodi meysydd penodol lle mae diffyg arbenigedd ar y corff llywodraethol. Bu problemau yn y gorffennol yn recriwtio llywodraethwyr, ac mae'r pennaeth yn teimlo bod y rheoliadau ynghylch mathau o lywodraethwr a chyfnod swydd yn rhy lym. Mae'r ysgol wedi dechrau cyfethol llywodraethwyr heb hawliau pleidleisio sy'n dod ag arbenigedd penodol. Er enghraifft, yn ystod y pandemig, roedd yr ysgol eisiau datblygu ei phresenoldeb ar-lein, a chyfetholodd ddylunydd gwe lleol i'w cynorthwyo.

Mewn mwyafrif o ysgolion, mae cyrff llywodraethol yn paru medrau unigol eu llywodraethwyr yn dda i wahanol rolau. Er enghraifft, maent yn penodi llywodraethwyr i wahanol bwyllgorau ar sail eu cefndiroedd a'u medrau. Mae llywodraethwyr a phenaethiaid yn gwerthfawrogi pa mor fuddiol y gall hyn fod i'w hysgolion.

Mewn lleiafrif o ysgolion, mae cyrff llywodraethol yn cynnal archwiliad medrau rheolaidd o'u haelodau fel bod ganddynt ddarlun cyfoes o ystod eu medrau a'u profiadau. Fodd bynnag, mewn gormod o ysgolion, nid yw cyrff llywodraethol yn cyflawni'r ymarfer hwn yn ddigon rheolaidd. Felly, nid ydynt bob amser yn gallu nodi ble gallant gryfhau eu medrau a'u gwybodaeth ar y cyd pan fydd swyddi gwag yn codi.

Mae gan gyrff llywodraethol aelodau sydd â chefndir addysgol. Mae hyn yn ychwanegol i staff-lywodraethwyr statudol. Yn yr ysgolion hyn, mae llywodraethwyr yn gwerthfawrogi profiad yr aelodau hyn o ran deall materion addysgol a modelu cwestiynau effeithiol ar gyfer llywodraethwyr eraill. Mae aelodau staff hefyd yn gwerthfawrogi pan fydd llywodraethwyr yn defnyddio'u medrau i'w cynorthwyo yn eu gwaith. Er enghraifft, mewn un ysgol yn Sir Benfro, mae llywodraethwr sy'n gyn-bennaeth yn darparu cymorth buddiol bob wythnos trwy weithio gyda disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn wirfoddol.

Lleiafrif o gyrff llywodraethol yn unig sy'n adlewyrchu cyfansoddiad amrywiol eu cymuned leol yn ddigon da. Mewn ychydig o ysgolion, mae llywodraethwyr ac arweinwyr yn gweld hyn yn broblem fawr ac yn sôn am anawsterau a gânt wrth recriwtio pobl o wahanol gefndiroedd i ymuno â'u corff llywodraethol. Nid yw llywodraethwyr sy'n siarad Cymraeg yn aelodau o lawer o gyrff llywodraethol cyfrwng

Saesneg, ac yn aml, nid oes ganddynt y safbwynt a'r arbenigedd y gallant eu cynnig, er enghraifft ar ddatblygu dwyieithrwydd.

Yn aml, mae penaethiaid yn cynorthwyo rhieni o wahanol gefndiroedd ethnig lleiafrifol i ymgeisio i ddod yn rhiant-lywodraethwyr, ond nid ydynt bob amser yn llwyddo i gael eu penodi.

Mae **Ysgol Gynradd Gatholig San Helen** yn Abertawe yn gwasanaethu cymuned leol amrywiol iawn. Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd eu corff llywodraethol sy'n adlewyrchu'r gymuned leol. O ganlyniad, daw llywodraethwyr o ystod eang o gefndiroedd ethnig lleiafrifol gwahanol. Maent yn dod â gwahanol safbwyntiau a phrofiadau bywyd i'r ysgol. Yn ychwanegol, mae llywodraethwyr yn aml yn aelodau blaenllaw o'r gymuned leol, ac mae hyn yn helpu'r ysgol i ddeall anghenion y gymuned. Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn arwain prosiectau gwrth-hiliaeth yn yr ysgol i helpu â chydlyniant cymunedol. Maent hefyd yn annog rhieni i ymwneud yn fwy â'r ysgol, yn enwedig tadau o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae llywodraethwyr ac uwch arweinwyr yn ymwybodol bod llawer o'r bobl hyn yn gweithio oriau anghymdeithasol gan eu bod yn gweithio yn y byd arlwyo, ac yn cymryd rhan mewn trefnu prosiectau i'w hannog i ymwneud yn fwy â'r ysgol ar adegau pan fyddant ar gael.

Mae llywodraethwyr a staff yn gweithio'n agos â rhieni i helpu eu hannog i ymgeisio i fod yn rhiant-lywodraethwyr. Er enghraifft, maent yn cael sesiynau dyddiol lle gall rhieni ddod i'r ysgol i gyfarfod â staff yn anffurfiol mewn ffordd hamddenol. Trwy'r cyfarfodydd hyn, mae rhieni'n magu hyder i ymwneud yn fwy â'r ysgol.

Mae un aelod o'r corff llywodraethol yn dangos llawer o ymroddiad i annog pobl o gefndiroedd pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i gymryd mwy o ran yn gyffredinol mewn ysgolion. Mae'n gweithio gyda'r Uned Ysgolion a Llywodraethwyr yn awdurdod lleol Dinas a Sir Abertawe ar brosiect i wella hyn, ac wedi lansio rhaglen llywodraethwyr ysgol sydd wedi'i hanelu'n benodol at gynyddu nifer y llywodraethwyr o gefndiroedd pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifol.

Mae'r awdurdod lleol wedi creu fideo ar 'Amrywio Cyrff Llywodraethol Abertawe' ('Diversifying Swansea's Governing Bodies') sy'n cynnwys cyfweliadau sy'n adlewyrchu profiadau bywyd go iawn gan bedwar o lywodraethwyr Abertawe o gefndiroedd amrywiol.

Mewn llawer o ysgolion, mae llywodraethwyr yn teimlo eu bod yn cael cymorth a chyngor addas gan yr awdurdod lleol neu'r gwasanaeth gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y partner gwella ysgolion sy'n mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod yr adroddiad ar berfformiad yr ysgol, cymorth â phenodi uwch staff, cyfleoedd hyfforddi, a chymorth teilwredig os yw'r ysgol yn wynebu anawsterau. Mae llywodraethwyr yn gwerthfawrogi cyngor sydd ar gael iddynt trwy wasanaethau cymorth i lywodraethwyr, os oes angen, er enghraifft os oes angen iddynt ddelio â galluogrwydd, cwynion anodd neu faterion recriwtio. Fodd bynnag, mae ansawdd ac argaeledd y cymorth a'r cyngor y mae awdurdodau lleol yn eu cynnig i lywodraethwyr yn amrywio gormod ledled Cymru.

Mewn awdurdodau lleol sy'n cyhoeddi cylchlythyrau rheolaidd i gyrff llywodraethol, mae llywodraethwyr yn gwerthfawrogi'r ffordd hon o rannu gwybodaeth bwysig.

## Rôl y clerc

Dylai'r clerc i'r corff llywodraethol weithio'n effeithiol â chadeirydd y llywodraethwyr, llywodraethwyr eraill a'r pennaeth i gefnogi'r corff llywodraethol. Dylai fod gan y clerc y medrau a'r arbenigedd angenrheidiol i allu rhoi cyngor ac arweiniad diduedd i'r corff llywodraethol ar faterion, dyletswyddau a phwerau cyfansoddiadol a gweithdrefnol. Mae'r clerc yn atebol i'r corff llywodraethol.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llywodraethwyr yn fodlon â'r gwasanaeth y mae eu clerc yn ei ddarparu ar eu cyfer. Mae'r rhan fwyaf o glercod wedi cael hyfforddiant penodol i'w helpu yn eu rôl. Maent yn dosbarthu papurau ar gyfer cyfarfodydd o fewn y cyfnod amser penodol ac yn ysgrifennu cofnodion cywir. Mae llawer o ysgolion yn manteisio ar wasanaeth clercio'r awdurdod lleol sydd ar gael yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Pan mae clercio'n llai effeithiol, mae hyn yn gyffredinol oherwydd nad yw clercod wedi cael llawer o hyfforddiant a chymorth i'w helpu i gyflawni eu rôl yn llwyddiannus. Mae ychydig iawn o ysgolion yn cael trafferth penodi clerc parhaol i'r rôl. Mewn lleiafrif o ysgolion yn unig y mae clercod yn mynychu cyfarfodydd pwyllgorau, ac o ganlyniad, mae aelod o'r corff llywodraethol fel arfer yn cymryd cofnodion y cyfarfodydd hyn.

Mewn ychydig o ysgolion lle nad yw trefniadau clercio mor effeithlon, nid yw llywodraethwyr yn derbyn papurau cyn cyfarfodydd, ac felly treulir amser yn ystod y cyfarfod i'w galluogi i ddarllen ac amgyffred gwybodaeth. Yn ychwanegol, nid yw cofnodion bob amser yn gynrychiolaeth gywir o'r cyfarfod.

Yn **Ysgol Gynradd Y Bryn** yn Sir Gaerfyrddin, nid oedd y clerc i'r llywodraethwyr wedi cael unrhyw hyfforddiant i'w chynorthwyo â'i rôl, ac o ganlyniad, nid oedd yn darparu lefel briodol o gymorth i'r corff llywodraethol. Er mwyn ei helpu i wella'i gwaith, mynychodd ystod o sesiynau hyfforddiant buddiol, a oedd yn cynnwys arweiniad ar sut i gymryd cofnodion cywir a rheoli cyfarfodydd yn fwy llwyddiannus.

Ymunodd â rhwydwaith o glercod o ysgolion lleol eraill, a rhoddodd hyn gyfle iddi ddysgu gan glercod mwy profiadol a rhannu arfer dda. Mynychodd gyfarfodydd y corff llywodraethol mewn ysgol bartner i weld sut mae eu clerc yn trefnu cyfarfodydd. O ganlyniad i'r cymorth hwn, mae hi'n darparu gwasanaeth clercio mwy effeithiol erbyn hyn, gan gynnwys ysgrifennu cofnodion cywir a defnyddiol, ac mae ganddi ddealltwriaeth well o'i rôl o fewn strwythur y corff llywodraethol.

## Hyfforddiant a chymorth

Pan benodir llywodraethwr i ddechrau, mae mwyafrif yr ysgolion yn cynnig rhaglen ymsefydlu fewnol, ond mae ansawdd y datblygiad proffesiynol hwn yn amrywio gormod. Gall hyn gynnwys diwrnod ymsefydlu wedi'i drefnu gan yr ysgol lle maent yn profi ystod o weithgareddau i'w helpu i ddeall eu rôl fel llywodraethwr a dod i adnabod yr ysgol yn gyflym. Yn ychwanegol, maen llawer o ysgolion, mae

llywodraethwyr sydd newydd eu penodi yn cael cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, gall llywodraethwyr gael hyfforddiant wedi'i gyflwyno gan aelodau staff, ac weithiau gan ddisgyblion. Mewn llawer o achosion, mae staff yr ysgol yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol i gyflwyno gwybodaeth i lywodraethwyr am waith yr ysgol a darparu hyfforddiant teilwredig ar eu cyfer, er enghraifft ar ddefnyddio Hwb a mentrau'r ysgol. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae uwch arweinwyr yn darparu hyfforddiant i lywodraethwyr ar drefniadau diogelu yn eu hysgol.

Mae argaeledd ac ansawdd hyfforddiant allanol a gynigir ar gyfer llywodraethwyr ledled Cymru yn amrywio gormod. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion sy'n cyflwyno hyfforddiant yn diwygio cynnwys eu sesiynau yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac adborth gan fynychwyr. Fodd bynnag, nid oes yna unrhyw sefydliad sy'n goruchwylio hyfforddiant a gynigir neu'n monitro ansawdd y cyflwyno neu'r cynnwys. Nid oes yna unrhyw hyfforddiant na chyrsiau achrededig ar gyfer llywodraethwyr yng Nghymru.

**Hyfforddiant y mae llywodraethwyr yn dweud eu bod wedi'i gael yn y 5 mlynedd ddiwethaf**

| | | | Canran Ymateb |
|---|---|---|---|
| 1 | Rheoli Perfformiad Penaethiaid | | 22% |
| 2 | Diogelu | | 78% |
| 3 | Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) | | 49% |
| 4 | Cydraddoldeb | | 26% |
| 5 | Rheoli'r gyllideb | | 24% |
| 6 | Cwricwlwm i Gymru | | 60% |
| 7 | Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol | | 52% |
| 8 | Cymorth a Her – bod yn ffrind beirniadol | | 20% |
| 9 | Arall (roedd yn cynnwys disgyblaethau, recriwtio, lles ac iechyd a diogelwch) | | 11% |

*Mae canrannau'n seiliedig ar ymatebion gan 315 o lywodraethwyr.*

Mae llywodraethwyr bron ym mhob ysgol yn mynychu'r hyfforddiant gorfodol sy'n cael ei drefnu gan yr awdurdod lleol neu'r gwasanaeth gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ymsefydlu, hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion llywodraethwyr a hyfforddiant data. Mewn ychydig iawn o ysgolion, disgwylir i lywodraethwyr ddiweddaru eu hyfforddiant gorfodol bob tair blynedd.

At ei gilydd, mae ansawdd cyflwyno a chynnwys y rhan fwyaf o hyfforddiant gorfodol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o staff sy'n cyflwyno hyfforddiant gorfodol yn broffesiynol a gwybodus ac yn darparu ystod dda o wybodaeth ar gyfer llywodraethwyr. Fodd bynnag, mae hyfforddiant data gorfodol wedi dyddio erbyn hyn ac nid yw'n berthnasol i newidiadau asesu. Mewn ysgolion lle mae uwch arweinwyr hefyd wedi cyflwyno sesiynau hyfforddiant data ac atebolrwydd mewnol, mae'r sesiynau hyn yn fwy perthnasol i rolau llywodraethwyr.

Ledled Cymru, cyflwynir y rhan fwyaf o hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr ar-lein erbyn hyn. Yn gyffredinol, mae llywodraethwyr yn hapus â hyn oherwydd gallant gael mynediad ato ar adegau sy'n fwy cyfleus iddyn nhw ac mae'n lleihau amser a chostau teithio. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o ysgolion, dywed llywodraethwyr yr hoffent gael opsiwn hyfforddiant wyneb yn wyneb o leiaf bob blwyddyn gan eu bod yn colli'r cyfle i ymgysylltu â llywodraethwyr a phobl broffesiynol eraill yn ystod y sesiynau hyn. Maent yn gweld bod hyn yn gyfle pwysig i rwydweithio a rhannu arfer dda.

Pan fydd llywodraethwyr yn defnyddio sesiynau wedi'u recordio ar gyfer hyfforddiant, er ei fod yn ddefnyddiol gallu cael mynediad at hyn ar unrhyw adeg o'r dydd, maent yn colli'r rhyngweithio â llywodraethwyr eraill a geir mewn digwyddiadau hyfforddiant byw. Mae'r cyswllt hwn yn bwysig i roi cyfle i lywodraethwyr rannu syniadau ac arfer dda.

Yng **Ngheredigion,** mae'r awdurdod lleol yn defnyddio modiwlau e-ddysgu i gyflwyno hyfforddiant gorfodol. Mae'r awdurdod hefyd wedi datblygu cynnig sy'n amrywio'n briodol o hyfforddiant atodol i gefnogi effeithiolrwydd llywodraethwyr a chadeiryddion llywodraethwyr. Cyflwynir y dysgu proffesiynol ychwanegol hwn yn bennaf trwy'r Fforwm Llywodraethwyr lleol a Fforwm Cadeiryddion Llywodraethwyr, ond gellir ei deilwra i anghenion ysgol benodol hefyd, pan fydd angen. Mae'r ddau fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd, mae nifer dda yn eu mynychu, ac maent bob amser yn cynnwys elfen o ddysgu proffesiynol.

Mae'r hyfforddiant ychwanegol yn cynnwys ffocws cryf ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru a diwygio ADY, ac mae wedi'i gynllunio'n benodol i gynorthwyo llywodraethwyr i ddeall eu rôl yn yr agenda ar gyfer gweddnewid.

Mae llywodraethwyr wedi elwa ar hyfforddiant penodol ar hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, hefyd. Er enghraifft, mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno dysgu proffesiynol ar gynnal teithiau dysgu gydag aelodau staff a chraffu ar waith, sy'n egluro sut gall llywodraethwyr weithio'n effeithiol gydag arweinwyr ysgolion i gasglu tystiolaeth uniongyrchol.

Mae'r awdurdod yn manteisio ar arbenigedd ei swyddogion ac arweinwyr ei ysgolion ei hun i gyflwyno hyfforddiant, ac mae'n dechrau rhannu arfer dda â Chyngor Sir Powys trwy Bartneriaeth Addysg Canolbarth Cymru.

Yn ogystal â'r hyfforddiant gorfodol ledled Cymru, mae awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion yn cynnig ystod o gyfleoedd hyfforddi eraill i lywodraethwyr. Mae hyn yn cynnwys agweddau ar eu gwaith, fel newid y cwricwlwm, delio â chwynion, a lles. Fodd bynnag, mae argaeledd ac ansawdd yr hyfforddiant hwn yn amrywio gormod rhwng gwahanol rannau o'r wlad. Mae yna ranbarthau sy'n cynnig amrywiaeth gyfoethog o sesiynau hyfforddi bob tymor i lywodraethwyr, tra bod llai o lawer o sesiynau ar gael mewn rhannau eraill o'r wlad.

Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, gall ysgolion ofyn am hyfforddiant teilwredig ar gyfer eu hysgol neu glwstwr o ysgolion gan swyddogion yr awdurdod lleol. Er

enghraifft, i wneud yr hyfforddiant data gorfodol yn fwy difyr a pherthnasol, gofynnodd un corff llywodraethol i swyddogion yr awdurdod lleol fynd i'r ysgol a chyflwyno'r hyfforddiant wyneb yn wyneb.

Mae llawer o awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion yn cyhoeddi manylion am eu rhaglen hyfforddiant blynyddol ar gyfer llywodraethwyr ymlaen llaw. Mae llywodraethwyr yn gwerthfawrogi hyn gan ei fod yn eu helpu i gynllunio eu presenoldeb.

Un o swyddogaethau'r **Gwasanaeth Cyflawni Addysg** (GCA) yw darparu Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr i bob ysgol yn y pum awdurdod lleol y mae'n eu gwasanaethu. Mae hefyd yn cynnig gwasanaeth clercio i bob ysgol ledled y rhanbarth. Mae'n gweld llywodraethwyr fel arweinwyr ysgol strategol pwysig a ddylai allu manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant arweinyddiaeth o ansawdd uchel.

Mae ei Wasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr yn darparu cyngor ac arweiniad i gyrff llywodraethol ysgolion, penaethiaid ac i lywodraethwyr unigol i'w cynorthwyo i gyflawni eu cyfrifoldebau a'u helpu i gydymffurfio â gofynion statudol.

Mae'r GCA yn darparu lefelau gwahanol o ddysgu proffesiynol ar gyfer llywodraethwyr o fewn y rhanbarth. Mae gan yr holl gyrff llywodraethol a llywodraethwyr fynediad at eu 'rhaglen dysgu proffesiynol gyffredinol ar gyfer llywodraethwyr'. Mae'r drafodaeth broffesiynol â'r partner gwella ysgolion ac adroddiad y corff llywodraethol yn rhan o'r ddarpariaeth gyffredinol ond wedi'i theilwra i'r ysgol unigol. Gall llywodraethwyr fanteisio ar gymorth targedig, gan gynnwys sesiynau hyfforddi pwrpasol ar gyfer eu hysgol. Mae'r rhanbarth hefyd yn cynnig cymorth dwys i gyrff llywodraethol, gan gynnwys trefnu mentora ar gyfer cadeiryddion llywodraethwyr a threfnu cymorth o ysgol i ysgol.

Mae'r gwasanaeth cymorth yn cyhoeddi rhaglen dysgu proffesiynol flynyddol ar gyfer llywodraethwyr ac yn rhannu diweddariadau misol â llywodraethwyr. Bob tymor, mae'r rhanbarth yn cynnig ystod o sesiynau hyfforddi i lywodraethwyr, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol a sesiynau eraill i gwmpasu rôl llywodraethwr, er enghraifft sut i ddelio â chwynion, a rheoli perfformiad penaethiaid.

Mae'r rhanbarth yn trefnu gweithdai rheolaidd i helpu llywodraethwyr i ddeall eu rôl a'u cyfraniad at brosesau datblygu ysgolion. Er enghraifft, yn nhymor yr hydref 2022, fe wnaethant hwyluso sesiynau ar ddatblygu cwricwlwm arloesol a chreu tîm gwych.

Yn ogystal â'r cymorth gan y GCA, mae awdurdodau lleol unigol yn y rhanbarth yn cynnig rhaglen hyfforddiant blynyddol ar gyfer eu meysydd cyfrifoldeb, er enghraifft diogelu, cyllid, anghenion dysgu ychwanegol, a gwaharddiadau.

Yn ogystal â hyfforddiant a gynigir gan awdurdodau lleol a'r rhanbarthau, mae llywodraethwyr mewn lleiafrif o ysgolion yn elwa ar hyfforddiant gan ddarparwyr eraill.

Ar hyn o bryd, mae **Gwasanaethau Governors Cymru** yn gweithio gydag wyth awdurdod lleol a 447 o ysgolion sy'n tanysgrifio i'w wasanaeth. Mae'n cynnig digwyddiadau hyfforddiant ar-lein rheolaidd ar gyfer llywodraethwyr yn yr ysgolion a'r awdurdodau lleol hyn. Mae hyfforddiant yn cwmpasu pynciau fel diogelu, GDPR a sut i fod yn llywodraethwr effeithiol. Mae'n gwahodd ymgynghorwyr i siarad â grwpiau o lywodraethwyr yn rheolaidd, er enghraifft. Mae AEF o Estyn wedi cyflwyno sesiynau ar les a newidiadau i'r fframwaith arolygu. Mae hefyd yn darparu hyfforddiant gorfodol mewn rhannau o Ogledd Cymru. Ar hyn o bryd, maent yn gweithio gydag awdurdod lleol Gwynedd (Gwasanaeth Dysgu Digidol) i hyrwyddo'r pecyn cymorth hunan-adolygu e-ddigidol ar gyfer cyrff llywodraethu, yn seiliedig ar dempled hunanwerthuso GCS. Yn ogystal, mae swyddogion yn darparu hyfforddiant pwrpasol i gyrff llywodraethu unigol a chlystyrau o ysgolion.

Yn ychwanegol, mae swyddogion yn darparu hyfforddiant teilwredig i gyrff llywodraethol unigol a chlystyrau o ysgolion.

Mewn lleiafrif o ysgolion, ceir llywodraethwr hyfforddiant dynodedig sydd â chyfrifoldeb am annog llywodraethwyr eraill i fynychu hyfforddiant perthnasol. Yn yr ysgolion hyn, mae hyfforddiant yn aml yn eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y corff llywodraethol llawn. Mewn ychydig o ysgolion, rhoddir rhestr i lywodraethwyr o hyfforddiant sydd fwyaf perthnasol i'w rôl yn y corff llywodraethol, er enghraifft yn gysylltiedig â gwaith pwyllgorau neu i ymestyn medrau presennol.

Mewn llawer o ysgolion, mae llywodraethwyr yn rhoi adborth llafar ar hyfforddiant diweddar yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol llawn. Maent yn defnyddio hyn fel cyfle i hyrwyddo hyfforddiant effeithiol gyda llywodraethwyr eraill ac i rannu eu profiadau. Mewn ychydig o ysgolion, ceir llawlyfr y corff llywodraethol sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig am rôl llywodraethwr. O fewn y llawlyfr, ceir dolen at gyrsiau perthnasol i lywodraethwyr eraill a fyddai o fudd iddyn nhw a'r ysgol. Mae ychydig o gyrff llywodraethol yn gofyn i bob un o'r llywodraethwyr ddiweddaru eu hyfforddiant o leiaf bob tair blynedd. Maent yn cadw taenlenni o hyfforddiant y mae llywodraethwyr wedi'i fynychu, ac fe gaiff llywodraethwyr eu hatgoffa pan fydd angen iddynt ddiweddaru eu hyfforddiant. Mae llywodraethwyr mewn ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig yn aml yn gweld nad yw hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant dewisol arall yn berthnasol iddyn nhw gan nad yw'n ystyried heriau penodol eu sectorau gan ei fod yn rhy generig. Byddent yn gwerthfawrogi cael hyfforddiant penodol gyda ffocws ar y blynyddoedd cynnar neu ADY i helpu eu cefnogi yn eu rôl.

## Penodi staff

Pan fydd yn ofynnol i lywodraethwyr benodi uwch staff, maent fel arfer yn cael eu cynorthwyo gan gynrychiolwyr o'r awdurdod lleol neu'r gwasanaeth gwella ysgolion. Ym mwyafrif yr ysgolion, mae gan lywodraethwyr rôl arweiniol mewn cytuno ar fanyleb yr unigolyn a'r swydd-ddisgrifiad ar gyfer yr holl hysbysebion am swyddi gwag i staff. Cânt eu cynnwys yn llawn mewn cytuno ar strwythur y cyfweliad a chwestiynau'r cyfweliad. Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid yn ganmoliaethus am y rôl oedd gan lywodraethwyr yn y broses benodi yn gyffredinol. Maent yn teimlo bod y llywodraethwyr enwebedig, gyda chymorth gan yr awdurdod lleol neu'r gwasanaeth

gwella ysgolion, yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol i'w galluogi i gwblhau'r broses yn fedrus.

**Beth mae llywodraethwyr yn ei ddweud am eu harbenigedd yn gwneud y gwaith canlynol wrth benodi arweinwyr ysgolion**

| | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| Yn cytuno ar swydd-ddisgrifiad a manyleb yr unigolyn | 84% | 16% |
| Yn cynllunio gweithgareddau cyfweliad i sicrhau eich bod yn penodi'r ymgeisydd cywir | 80% | 20% |
| Yn llunio rhestr fer o'r ymgeiswyr cryfaf | 94% | 6% |
| Yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth o'r broses gyfweld i sicrhau bod yr ymgeisydd cryfaf yn cael ei ddewis | 94% | 6% |

*Mae canrannau'n seiliedig ar ymatebion gan 338 o lywodraethwyr.*

## Gweithio gydag ysgolion eraill

Mae gan bob awdurdod lleol gorff sy'n cynrychioli cymdeithasau llywodraethwyr. Maent yn rhoi cyfle i lywodraethwyr o bob ysgol yn eu hawdurdod lleol ffurfio rhwydwaith proffesiynol a rhannu arfer dda o'u cyrff llywodraethol a'u hysgolion eu hunain. Maent yn gweithredu fel cyfrwng ar gyfer trafod y datblygiadau diweddaraf mewn addysg yn eu rhanbarth a'r sector addysg yn genedlaethol. Defnyddir y cymdeithasau yn aml fel ymgynghorwyr gan awdurdodau lleol, gwasanaethau gwella ysgolion a Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar faterion strategol a materion polisi sy'n effeithio ar ysgolion. Mae'r cymdeithasau hefyd yn darparu mecanwaith i lywodraethwyr ymgysylltu'n llawn â swyddogion addysg lleol. Fodd bynnag, ym mwyafrif yr ysgolion, nid yw llywodraethwyr yn manteisio ar y cyfle i ymwneud â'u cymdeithas leol i lywodraethwyr yn ddigon da.

Yn ychwanegol, mewn ychydig o ysgolion, caiff llywodraethwyr gyfle i gyfarfod â llywodraethwyr o ysgolion eraill trwy gyfarfodydd cyrff llywodraethol clwstwr.

Yng **nghlwstwr ysgolion Afon Taf** ym Merthyr, mae llywodraethwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio gyda'i gilydd fel clwstwr. Mae'r trefniant yn darparu fforwm gwerthfawr i lywodraethwyr rwydweithio a dysgu oddi wrth ei gilydd. Maent yn cael hyfforddiant o fewn y grŵp, yn aml dan gyfarwyddyd ac arweiniad penaethiaid. Er enghraifft, yn ddiweddar, cawsant sesiwn ar wella presenoldeb. Weithiau, maent yn gwahodd siaradwyr allanol i annerch y grŵp. Mae hyn yn helpu llywodraethwyr i herio arweinwyr ysgolion yn fwy effeithiol. Prif effaith y gweithio mewn clwstwr yw bod arfer a gwybodaeth dda yn cael eu rhannu'n well ar lefel llywodraethwr. Hefyd, helpodd ddatblygu perthnasoedd gweithio effeithiol rhwng cadeiryddion

llywodraethwyr i gefnogi trefniadau pontio mwy effeithiol.

## Strwythurau, yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau

### Strwythurau cyrff llywodraethol

Yng Nghymru, rhaid i gyrff llywodraethol gyfarfod o leiaf unwaith y tymor, ond efallai y byddant yn penderfynu cyfarfod yn amlach. Bydd pob corff llywodraethol yn cytuno ar ba mor aml i gyfarfod, ble y dylid cynnal cyfarfodydd, a faint o’r gloch. Y corff llywodraethol fydd yn gwneud penderfyniadau o’r math hwn yn bennaf, ond mae rhai rheolau ar gyfer cyfarfodydd wedi’u nodi mewn rheoliadau. Efallai bydd pob corff llywodraethol yn rheoleiddio’i weithdrefnau ei hun a gweithdrefnau ei bwyllgorau, ac yn dirprwyo’i swyddogaethau. Wrth sefydlu pwyllgorau neu ddirprwyo swyddogaethau iddyn nhw neu unigolion, mae’r corff llywodraethol yn amlinellu’r rôl a’r cyfrifoldebau a ddisgwylir gan bob un ohonynt.

Mae bron pob un o gyrff llywodraethol ysgolion yn cynnal cyfarfod y corff llywodraethol llawn yn rheolaidd, naill ai bob tymor neu bob hanner tymor. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae nifer dda yn mynychu’r cyfarfodydd. Os nad yw llywodraethwyr yn ymrwymo i fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd, mae cyrff llywodraethol fel arfer yn rhagweithiol o ran eu tynnu o’r corff.

Mewn ychydig o ysgolion, mae’r ysgol yn gwahanu ei chyfarfodydd â’r corff llywodraethol llawn, ac yn cael un cyfarfod busnes a chyfarfod dysgu ac addysgu arall bob tymor ar gyfer yr holl lywodraethwyr. Mae hyn yn sicrhau bod pob un o’r llywodraethwyr yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau rheolaidd ar ddysgu ac addysgu gan mai dyma fusnes craidd yr ysgol. Mae’r strwythur hwn yn helpu pob un o’r llywodraethwyr i ddeall y cynnydd y mae’r ysgol yn ei wneud o ran bodloni ei thargedau gwella.

Ym mhob ysgol, cynhelir cyfarfod blynyddol cyffredinol lle mae’r corff llywodraethol yn penodi cadeirydd y llywodraethwyr ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn cytuno ar aelodaeth eu pwyllgorau a’u panelau amrywiol. Mae hyn yn cynnwys y panelau a’r pwyllgorau statudol ynghyd â phwyllgorau eraill y mae’r ysgol yn dymuno’u cael. Bron ym mhob ysgol, mae gan bwyllgorau gylch gorchwyl priodol, sy’n amlinellu eu cyfrifoldebau dirprwyedig ac agweddau y mae angen i’r corff llywodraethol llawn gytuno arnynt. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llywodraethwyr yn diweddaru’r cylch gorchwyl hwn bob blwyddyn.

Er bod llywodraethwyr yn y rhan fwyaf o ysgolion yn diwygio aelodaeth eu pwyllgorau bob blwyddyn, dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion y maent yn ystyried strwythur eu pwyllgorau anstatudol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion yr ysgol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae llywodraethwyr yn defnyddio’r canfyddiadau o’u hunanwerthusiad blynyddol i ystyried eu strwythur pwyllgorau i sicrhau bod hwn yn cyd-fynd â blaenoriaethau’r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol. Maent yn mynd i’r afael â’r materion trwy gynllun gweithredu llywodraethwyr ac yn sefydlu pwyllgorau

newydd. Mae'r strwythur newydd yn cyd-fynd â blaenoriaethau ysgolion ac yn gweithio'n effeithlon i alluogi llywodraethwyr i ddatblygu arbenigedd a dod yn arweinwyr strategol mwy effeithiol yr ysgol.

Dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion y mae gan lywodraethwyr ymagwedd fwy hyblyg at eu defnydd o bwyllgorau. Yn yr ysgolion hyn, mae llywodraethwyr yn aml yn sefydlu pwyllgorau am gyfnod amser byr i fynd i'r afael ag agwedd benodol ar eu gwaith.

Yn **Ysgol Lewis i Ferched** yng Nghaerffili, mae'r corff llywodraethol yn defnyddio pwyllgorau a phanelau mewn ffordd hyblyg a buddiol. Mae aelodau'n sefydlu panelau am gyfnodau byr i ymateb i agweddau penodol y mae angen i'r ysgolion fynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi sefydlu panel ADY lle mae llywodraethwyr dethol yn cyfarfod ag arweinwyr ysgolion i drafod newidiadau yn yr ysgol. Wedyn, mae'r llywodraethwyr hyn yn rhannu gwybodaeth bwysig gydag aelodau eraill mewn cyfarfod corff llywodraethol llawn. Maent wedi sefydlu pwyllgor presenoldeb hefyd i ymateb i bryderon presennol ynghylch presenoldeb disgyblion. Mae llywodraethwyr yn cynorthwyo'r ysgol â phresenoldeb trwy gyfarfod â rhieni a mynychu cyfarfodydd y panel presenoldeb. Mae hyn wedi arwain at bresenoldeb gwell i lawer o ddisgyblion.

I helpu annog presenoldeb yn eu cyfarfodydd, maent yn cynnal cyfarfodydd yn rhithwir, ac fel arfer am 8am, sy'n amser cyfleus i'r rhan fwyaf o lywodraethwyr sy'n gweithio a hefyd yn galluogi staff ysgol i fynychu a chyflwyno cyn i'r ysgol ddechrau.

Mewn gormod o ysgolion, mae pwyllgorau wedi bod ar waith yn rhy hir. Nid yw llywodraethwyr yn trafod yn rheolaidd p'un a yw'r strwythur yn effeithiol ai peidio o ran helpu'r ysgol i fynd i'r afael ag agweddau pwysig ar ei gwaith. Mewn ychydig o ysgolion, mae llywodraethwyr wedi newid strwythur eu pwyllgorau ac wedi'u cyfuno, i helpu sicrhau bod cworwm mewn cyfarfodydd, ac nid am resymau strategol yn gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae cael llai o bwyllgorau fel arfer wedi arwain at bresenoldeb gwell sydd wedi galluogi i benderfyniadau gael eu cytuno.


### Deall newidiadau i ddeddfwriaeth o ran y cwricwlwm ac ADY

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llywodraethwyr wedi cael gwybodaeth ddigonol i roi dealltwriaeth gadarn iddynt o newidiadau i'r cwricwlwm yn eu hysgolion. Bron ym mhob un o'r ysgolion hyn, mae staff wedi darparu ystod o gyflwyniadau a gwybodaeth am newidiadau i'r cwricwlwm i lywodraethwyr, a'r effaith ar eu hysgol. Mewn ychydig o ysgolion, mae llywodraethwyr wedi cael cyflwyniadau gan ddisgyblion ar sut maent yn dysgu yn unol â newid y cwricwlwm. Maent wedi gweld y sesiynau hyn yn addysgiadol ac yn 'real' iawn.

Mae ychydig o ysgolion wedi cael cyfarfodydd dynodedig y corff llywodraethol neu hyfforddiant yn benodol ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mewn ychydig o ysgolion, mae llywodraethwyr wedi cael cyfarfodydd buddiol gydag ymgynghorwyr yr awdurdod lleol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm. Fodd bynnag, dywed llawer o lywodraethwyr fod ganddynt bryderon nad oes ganddynt ddealltwriaeth gadarn am

fesurau atebolrwydd y bydd ysgolion yn eu defnyddio, a'u bod yn teimlo bod yr hyfforddiant data gorfodol y maent wedi'i gael wedi dyddio ac nad yw'n fuddiol iddynt.

**Sut mae llywodraethwyr yn teimlo am eu hymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm i Gymru a'r cynnydd y mae eu hysgol yn ei wneud tuag at ei gyflwyno**




*Mae canrannau'n seiliedig ar ymatebion gan 352 o lywodraethwyr.*

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth addas o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET) a'r goblygiadau i'w hysgol. Maent yn cael gwybodaeth reolaidd gan staff ysgolion, yn enwedig y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY), ac mae ychydig ohonynt yn cael gwybodaeth uniongyrchol trwy ymweliadau â'r ysgol i edrych ar newidiadau i'r broses ADY a gwaith papur.

Mewn lleiafrif o ysgolion, mae llywodraethwyr wedi mynychu hyfforddiant allanol ar gyfer newidiadau i'r cwricwlwm a diwygio ADY, hefyd. Er enghraifft, mae llywodraethwyr yn Sir y Fflint wedi elwa ar gwrs buddiol ar-lein yn benodol ar gyfer llywodraethwyr ar newidiadau ADY. Mewn lleiafrif o ysgolion meithrin, nid yw llywodraethwyr yn hyderus am ddeall polisi a deddfwriaeth y bil diwygio ADY.

## Cydymffurfio â gofynion statudol

Mae yna ystod eang o ofynion statudol y mae'n rhaid i gyrff llywodraethol eu rhoi ar waith yng Nghymru. Mae corff llywodraethol effeithiol yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r holl ofynion.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llywodraethwyr yn cael hyfforddiant diogelu rheolaidd, ac mae hyn yn eu helpu i ddeall eu rôl fel arweinwyr strategol. Fodd bynnag, nid yw lefel eu her a dealltwriaeth o sut beth yw diogelu yn eu hysgol a gweithdrefnau eu hysgol ar gyfer delio ag unrhyw bryderon am amddiffyn plant yn aml wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mewn lleiafrif o ysgolion llwyddiannus, yn ogystal â hyfforddiant diogelu generig, mae llywodraethwyr yn cael hyfforddiant sy'n benodol i'r ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae ganddynt ddealltwriaeth fwy cadarn o sut mae'r ysgol yn ymateb i bryderon. Mae llywodraethwyr yn yr ysgolion hyn mewn sefyllfa gryfach i gwestiynu gwybodaeth y mae uwch arweinwyr yn ei rhannu â nhw.

Mae diogelu yn eitem sefydlog ar agendâu cyrff llywodraethol llawn bron pob un o'r llywodraethwyr. Mae hyn yn gyfle i arweinwyr rannu gwybodaeth yn ddienw am ddiogelu â nhw ac yn rhoi cyfle iddynt ofyn cwestiynau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion yn unig y mae arweinwyr yn teimlo bod llywodraethwyr yn eu herio'n effeithiol pan fyddant yn rhannu gwybodaeth â nhw.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cyrff llywodraethol yn ymwybodol o bolisi eu hysgol ar fwyta ac yfed yn iach. Fodd bynnag, maent yn aml yn dibynnu'n ormodol ar dderbyn gwybodaeth gan arweinwyr yr ysgol i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

Bron ym mhob ysgol, mae arweinwyr yn rhannu ystod o bolisïau gyda llywodraethwyr naill ai yn y cyfarfodydd corff llywodraethol llawn neu drwy eu pwyllgorau. Yn yr ysgolion cryfaf prin, yn ogystal ag adolygu polisïau statudol bob blwyddyn, mae rhaglen strategol ar gyfer adolygu'r holl bolisïau eraill y mae llywodraethwyr yn gwbl ymwybodol ohonynt.

Mewn lleiafrif o ysgolion yn unig y mae llywodraethwyr yn craffu ar bolisïau ac yn ychwanegu gwerth pan gaiff polisïau eu diweddaru neu'u hysgrifennu. Yn yr ysgolion hyn, mae llywodraethwyr yn darllen polisïau i sicrhau eu bod yn addas at eu diben ar gyfer eu hysgol. Maent yn aml yn ychwanegu gwahanol safbwyntiau at bolisïau ac fe gaiff y cymorth hwn ei werthfawrogi gan benaethiaid. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, prin yw'r dystiolaeth i awgrymu bod llywodraethwyr yn darllen ac yn herio polisïau. Nid yw'n anghyffredin i gofnodion y cyfarfodydd gofnodi bod polisïau wedi cael eu rhannu â llywodraethwyr ac y cytunwyd arnynt heb sôn o gwbl am unrhyw gwestiynau na her.

Mae'n ofynnol i bob corff llywodraethol ysgol a gynhelir lunio adroddiad bob blwyddyn ar ei waith yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae penaethiaid yn ysgrifennu bron y cyfan o adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i

rieni, gydag ychydig iawn o fewnbwn gan y rhan fwyaf o lywodraethwyr, ar wahân i gadeirydd y llywodraethwyr sydd fel arfer yn ysgrifennu’r rhagair. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae llywodraethwyr yn cyfrannu at eu hadroddiad trwy ysgrifennu adrannau neu weithio ochr yn ochr â’r pennaeth i gyfrannu’n llawnach at y broses ysgrifennu.

# Gwerthuso i fonitro a gwella ansawdd ac effaith cyrff llywodraethol

## Hunanwerthuso

Mae monitro a gwerthuso effeithiolrwydd corff llywodraethol yn elfen allweddol o lywodraethu da. Dylai llywodraethwyr asesu eu heffeithiolrwydd a'u heffeithlonrwydd a sicrhau cydymffurfio parhaus â'u dyletswyddau statudol a chyfreithiol. Dylai llywodraethwyr unigol hefyd fyfyrio ar eu cyfraniad eu hunain wrth helpu creu corff cryfach sydd â mwy o gymhelliant.

Mae cyrff llywodraethol hynod effeithiol yn hunanwerthuso eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd. Mae offer ar gael i gynorthwyo cyrff llywodraethol â gwerthuso'u gwaith yn ffurfiol. Mewn ychydig o awdurdodau lleol, yn aml mae gan gyrff llywodraethol opsiwn i ofyn am hunanwerthusiad gan yr awdurdod lleol.

Fodd bynnag, lleiafrif o gyrff llywodraethol yn unig sydd wedi cynnal unrhyw hunanwerthusiad o'u gwaith yn y tair blynedd ddiwethaf. Mae mwyafrif y llywodraethwyr yn cydnabod bod hwn yn faes y mae angen iddynt ei wella. Mewn ychydig o ysgolion, mae gan lywodraethwyr gynlluniau i gyflwyno ymarfer hunanwerthuso yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Mae lleiafrif o gyrff llywodraethol yn ymwybodol o offer archwilio sydd ar gael iddynt naill ai gan wasanaethau gwella ysgolion, er enghraifft Consortiwm Canolbarth y De (CCD) a'r GCA, neu Gwasanaethau Governors Cymru.

Ychydig o gyrff llywodraethol yn unig sydd â chynllun gweithredu cyfredol sy'n cynnwys targedau ar gyfer gwella.

**Ysgol Plas Brondyffryn** yn Sir Ddinbych yw'r ganolfan ranbarthol ar gyfer addysg awtistiaeth yng Ngogledd Cymru. Mae gan y corff llywodraethol system sefydledig ar waith i hunanwerthuso'i effeithiolrwydd. Bob blwyddyn, mae llywodraethwyr yn cwblhau gweithgaredd hunanwerthuso, sy'n galluogi iddynt nodi meysydd i'w gwella. Maent yn defnyddio canlyniadau'r hunanwerthusiad i sefydlu blaenoriaethau ar gyfer y corff llywodraethol am y flwyddyn ganlynol. Er enghraifft, y llynedd, nodon nhw fod angen datblygu mwy o gyfleoedd i gasglu tystiolaeth uniongyrchol ac mae ganddynt bresenoldeb cryfach yn yr ysgol. O ganlyniad i'r gwerthusiad hwn, fe wnaethant ddiwygio ac ehangu rôl eu llywodraethwyr cyswllt.

## Gwerthuso hyfforddiant

Mae ychydig o awdurdodau lleol yn cynnig gwerthuso effeithiolrwydd y corff llywodraethol. Mae hyn fel arfer yn cynnwys swyddogion yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol i asesu effeithiolrwydd y cyfarfod a barnu ansawdd y cwestiynau. Wedyn, mae swyddogion yn rhoi adborth i lywodraethwyr ar gryfderau a ffyrdd y gallant wella. Yn Sir Benfro, er enghraifft, pan gynhaliodd swyddogion awdurdodau lleol werthusiad diweddar o gyrff llywodraethol, gadawsant lywodraethwyr gyda

chryfderau a meysydd i’w gwella yn ymwneud â pha mor dda y maent yn cynnal eu cyfarfodydd corff llywodraethol llawn.

Lleiafrif o lywodraethwyr yn unig sy’n gwerthuso’r hyfforddiant a gânt a’i effaith ar wella’u rôl fel llywodraethwr effeithiol. Mae hyn yn ddiffyg yn y mwyafrif o ysgolion. Mewn ychydig o ysgolion lle mae arfer ar ei chryfaf, mae llywodraethwyr yn cadw cofnod o’r holl hyfforddiant y maent wedi’i fynychu. Disgwylir i lywodraethwyr adrodd yn ôl ar ôl unrhyw hyfforddiant y maent wedi’i gael gyda manylion am yr hyn y maent wedi’i ddysgu a sut maen nhw’n meddwl y bydd yn eu helpu yn eu rôl. Maent yn cwblhau cofnod effaith hefyd i farnu effaith eu hyfforddiant ar eu rôl dros gyfnod.

# Methodoleg a sail y dystiolaeth

## I lywio sail ein tystiolaeth, cyfwelom â phenaethiaid a llywodraethwyr yn yr ysgolion canlynol

| Ysgol | Sector | Awdurdod lleol |
|---|---|---|
| Ysgol Plas Brondyffryn | Arbennig | Sir Ddinbych |
| Greenhill | Arbennig | Caerdydd |
| Tremorfa | Meithrin | Caerdydd |
| Ysgol Feithrin Rhydaman | Meithrin | Sir Gâr |
| Ysgol Fabanod Bedwas | Babanod | Caerffili |
| Ysgol Gynradd Gatholig Yr Holl Seintiau | Cynradd | Blaenau Gwent |
| Y Bryn | Cynradd | Sir Gâr |
| Bryn Celyn | Cynradd | Caerdydd |
| Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Bryncoch | Cynradd | Castell-nedd Port Talbot |
| Ffederasiwn Eveswell a Somerton | Cynradd | Casnewydd |
| Y Gelli Gandryll | Cynradd | Powys |
| Parc Jiwbilî | Cynradd | Casnewydd |
| Libanus | Cynradd | Caerffili |
| Maes Y Bryn | Cynradd | Rhondda Cynon Taf |
| Ysgol Yr Eglwys yng Nghymru Model | Cynradd | Sir Gâr |
| Doc Penfro | Cynradd | Sir Benfro |
| Penygawsi | Cynradd | Rhondda Cynon Taf |
| Pontnewydd | Cynradd | Torfaen |
| Pontybrenin | Cynradd | Abertawe |
| Sain Tathan | Cynradd | Bro Morgannwg |
| San Helen | Cynradd | Abertawe |
| Ysgol Gynradd Mihangel Sant Eglwys Gatholig Rhufain | Cynradd | Rhondda Cynon Taf |
| Ysgol Gynradd Gatholig Pedr Sant | Cynradd | Caerdydd |
| Tremaen | Cynradd | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Ffederasiwn Ysgol Fabanod Mochdre ac Ysgol Cystennin | Cynradd | Conwy |
| Ysgol Glannau Gwaun | Cynradd | Sir Benfro |
| Ysgol Gynradd Aberaeron | Cynradd | Ceredigion |
| Ysgol Gynradd Abererch | Cynradd | Gwynedd |
| Ysgol Gymraeg Brynsierfel | Cynradd | Sir Gâr |
| Ysgol Llanfairpwllgwyngyll | Cynradd | Ynys Môn |
| Ysgol Maesglas Greenfield | Cynradd | Sir y Fflint |
| Ysgol Bro Hyddgen | Pob oed | Powys |
| Ysgol Uwchradd Afon Taf | Uwchradd | Merthyr Tudful |
| Ysgol Uwchradd Argoed | Uwchradd | Sir y Fflint |
| Greenhill | Uwchradd | Sir Benfro |
| Ysgol Uwchradd Whitmore | Uwchradd | Bro Morgannwg |
| Ysgol Bryn Alyn | Uwchradd | Wrecsam |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Brynrefail | Uwchradd | Gwynedd |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf | Uwchradd | Caerdydd |
| Ysgol Lewis i Ferched | Uwchradd | Caerffili |

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, cynhaliodd AEF ddau gyfweliad ar wahân ar-lein. Roedd un gyda'r pennaeth (ac uwch arweinwyr eraill, mewn ychydig o achosion) ac un arall gyda grŵp o rhwng dau ac wyth o lywodraethwyr a oedd ar gael i fynychu. Parodd pob cyfweliad rhwng 30 a 60 munud. Mewn ychydig o ysgolion, cynhaliom un cyfweliad â'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr. Gofynnom yr un set o gwestiynau ym mhob ysgol. Dewisom ddarparwyr i roi gwybodaeth i ni o drawstoriad o wahanol ysgolion o ran math, maint, cyfrwng iaith, lleoliad, nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a nifer y disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

### Cyfweliadau ar-lein â chynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol

| |
|---|
| Prifysgol Caerdydd |
| Awdurdod Lleol Ceredigion |
| Awdurdod Lleol Conwy |
| Cymdeithas Llywodraethwyr Sir Ddinbych |
| Gwasanaethau Governors Cymru |
| Governors for Schools |
| Awdurdod Lleol Abertawe |
| Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) |
| Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) |
| Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL) |

Dewisom sampl o awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion yn ogystal â sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda chyrff llywodraethol yng Nghymru. Fe wnaethom baratoi cwestiynau perthnasol cyn pob cyfweliad, a oedd yn berthnasol i waith y sefydliad hwnnw. Parodd pob cyfweliad rhwng 30 a 60 munud. Fe wnaeth pob sefydliad yr aethom atynt gymryd rhan yn y cyfweliadau ar-lein.

### Anfonwyd arolwg ar-lein i 250 o ysgolion a derbyniwyd arolygon cyflawn gan 363 o lywodraethwyr

Roedd yr arolwg yn agored i'w lenwi rhwng 7 Tachwedd a 22 Rhagfyr 2022. Dadansoddom yr ymatebion i'r arolwg a grwpio ymatebion agored yn themâu cyffredin.

Roedd demograffeg yr ymatebion fel a ganlyn:

| | Math o Ysgol | Canran Ymateb | Cyfanswm yr Ymatebion |
|---|---|---|---|
| 1 | Cynradd/Meithrin | 83% | 293 |
| 2 | Uwchradd | 13% | 45 |
| 3 | Pob Oed | 3% | 12 |
| 4 | Arbennig | 1% | 2 |


Roedd 14% o lywodraethwyr a ymatebodd o ysgolion sy'n rhan o ffederasiwn.

| Math o lywodraethwr | | | Canran Ymateb | Cyfanswm yr Ymatebion |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Pennaeth | | 8% | 28 |
| 2 | Staff | | 15% | 53 |
| 3 | Rhiant | | 27% | 93 |
| 4 | Cymuned | | 25% | 86 |
| 5 | Awdurdod Lleol | | 21% | 75 |
| 6 | Esgobaeth | | 4% | 15 |

| Hyd y cyfnod amser fel llywodraethwr yn yr ysgol | | | Canran Ymateb | Cyfanswm yr Ymatebion |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Llai na 6 mis | | 8% | 28 |
| 2 | 6 mis i 1 flwyddyn | | 13% | 47 |
| 3 | 1 i 4 blynedd | | 31% | 109 |
| 4 | Mwy na 4 blynedd | | 48% | 168 |

Cawsom ymatebion gan 19 o'r 22 awdurdod lleol.

**Ym mha awdurdod lleol y mae eich ysgol wedi'i leoli?**




*Mae canrannau'n seiliedig ar ymatebion gan 351 o lywodraethwyr.*

## Defnyddiwyd tystiolaeth o arolygiadau o fis Medi 2018 ymlaen

Dadansoddom sampl o adroddiadau arolygu rhwng mis Medi 2018 a mis Rhagfyr 2022 i ystyried y dystiolaeth yr oedd arolygwyr wedi'i chasglu ar y prif gryfderau a diffygion yng ngwaith cyrff llywodraethol mewn ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig.

## Cwestiynau a ddefnyddiwyd mewn arolwg ar-lein

# Cwestiynau amdanoch chi a'ch ysgol

**1. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich ysgol orau?**

- ☐ Cynradd/Meithrin
- ☐ Uwchradd
- ☐ Pob oed
- ☐ Arbennig

**2. A yw eich ysgol yn rhan o ffederasiwn?**

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy

**3. Pa fath o lywodraethwr ydych chi?**

- ☐ Pennaeth
- ☐ Staff
- ☐ Rhiant
- ☐ Cymuned
- ☐ Awdurdod Lleol
- ☐ Esgobaeth

**4. Am ba hyd y buoch chi'n llywodraethwr yn eich ysgol bresennol?**

- ☐ Llai na 6 mis
- ☐ 6 mis i flwyddyn
- ☐ 1-4 blynedd
- ☐ Mwy na 4 blynedd

**5. Ym mha awdurdod lleol y mae'ch ysgol wedi'i lleoli?**

**6. Pa rai o'r swyddi canlynol sydd gennych chi fel llywodraethwr ar hyn o bryd? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- ☐ Cadeirydd y llywodraethwyr
- ☐ Is-gadeirydd y llywodraethwyr
- ☐ Cadeirydd is-bwyllgor
- ☐ Diogelu
- ☐ Anghenion Dysgu Ychwanegol
- ☐ Hyfforddiant
- ☐ Lles
- ☐ Rôl arall llywodraethwr (rhowch fanylion):

# Cwestiynau am hyfforddiant

**7. Pa rai o'r canlynol ydych chi wedi'u defnyddio i ddarparu hyfforddiant i lywodraethwyr yn eich ysgol chi? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- ☐ Awdurdod lleol
- ☐ Consortiwm rhanbarthol
- ☐ Staff yr ysgol
- ☐ Gwasanaethau Llywodraethwyr Cymru
- ☐ Arall – rhowch fanylion

**8. Beth yw eich barn chi am ansawdd yr hyfforddiant gorfodol canlynol sydd ar gael i'ch corff llywodraethol?**
***Meddyliwch am gynnwys yr hyfforddiant a'i effaith ar eich helpu i ddod yn llywodraethwr effeithiol, yn hytrach nag ansawdd y cyflwyno.***

| | Rhagorol | Da | Boddhaol | Gwael | Gwael iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Deall Data | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ymsefydlu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cadeiryddion | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**9. Pa hyfforddiant arall ydych chi wedi'i gael dros y 5 mlynedd diwethaf? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- ☐ Rheoli Perfformiad y Pennaeth
- ☐ Diogelu
- ☐ Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)
- ☐ Cydraddoldeb
- ☐ Rheoli'r gyllideb
- ☐ Cwricwlwm i Gymru
- ☐ Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Diwygio ADY)
- ☐ Cefnogi a Herio – bod yn gyfaill beirniadol
- ☐ Arall – rhowch fanylion

**10. At ei gilydd, beth fu ansawdd yr hyfforddiant a ddarparwyd gan:**

| | Rhagorol | Da | Boddhaol | Gwael | Gwael iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr Awdurdod Lleol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Y Consortiwm Rhanbarthol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yr ysgol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Arall (Rhowch enw'r darparwr):

**11. At ei gilydd, beth yw eich barn am eich gallu i fanteisio ar hyfforddiant sy'n berthnasol i'ch anghenion chi?**

- ☐ Rhagorol
- ☐ Da
- ☐ Boddhaol
- ☐ Gwael
- ☐ Gwael iawn

**12. A ydych chi fyth yn mynychu'r canlynol o gwbl?**

| | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| Hyfforddiant wyneb-yn-wyneb | ☐ | ☐ |
| Hyfforddiant ar-lein | ☐ | ☐ |

**13. A ydych yn cael unrhyw broblemau o ran manteisio ar hyfforddiant ar amseroedd cyfleus neu mewn lleoliadau cyfleus?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os ateboch chi 'ydw', pam ydych chi'n dweud hynny?

**14. Ym mha ffyrdd mae hyfforddiant wedi'ch helpu i ymgymryd â'ch rôl fel llywodraethwr?**

**15. A ddisgwylir i chi werthuso'n ffurfiol effaith eich hyfforddiant ar wella eich rôl fel llywodraethwr?**

# Cwestiynau am arweinyddiaeth strategol

**16. Sut ydych chi'n gwybod beth sy'n digwydd yn eich ysgol? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- [ ] Adroddiadau'r pennaeth
- [ ] Ymweliadau â'r ysgol
- [ ] Data sy'n cael ei rannu â chi
- [ ] Y cynllun datblygu ysgol neu'r cynllun gwella ysgol
- [ ] Adroddiad hunanwerthuso'r ysgol
- [ ] Cyflwyniadau ac adroddiadau gan arweinwyr yr ysgol ac aelodau staff eraill
- [ ] Adroddiadau gan yr awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol
- [ ] Siarad â rhanddeiliaid (e.e. disgyblion a rhieni)
- [ ] Adroddiadau Estyn
- [ ] Arall – rhowch fanylion

**17. Pa rôl oedd gan y corff llywodraethol o ran cytuno ar y weledigaeth ar gyfer eich ysgol?**

- [ ] Rôl gref o ran cytuno ar y geiriad – wedi cydweithio â rhanddeiliaid a mynychu sesiwn/sesiynau â staff yr ysgol
- [ ] Cyflwynodd y pennaeth weledigaeth arfaethedig i'r corff llywodraethol ond nid oedd gennym rôl fawr o ran cytuno arni
- [ ] Yn ymwybodol o'r weledigaeth ond dim rôl o ran cytuno arni
- [ ] Ddim yn gwybod

**18. Pa mor ymwybodol ydych chi o'r Cwricwlwm i Gymru a'r cynnydd y mae'ch ysgol yn ei wneud tuag at ei gyflwyno?**

- [ ] Yn gwbl ymwybodol – rwyf wedi cael llawer o wybodaeth gan yr ysgol ac rwy'n gwbl ymwybodol o'i chynnydd
- [ ] Rwy'n ymwybodol o'r cwricwlwm newydd ond nid wyf yn siŵr am gynnydd yr ysgol tuag at ei gyflwyno
- [ ] Nid wyf wedi cael llawer o wybodaeth, os o gwbl, am y cwricwlwm newydd

**19. Sut byddech chi'n disgrifio eich dealltwriaeth o ddata y mae arweinwyr yr ysgol yn ei gyflwyno i chi?**

- ☐ Rhagorol
- ☐ Da
- ☐ Boddhaol
- ☐ Gwael
- ☐ Gwael iawn

**20. A wnaeth yr hyfforddiant data gorfodol a gawsoch wella eich dealltwriaeth o gwbl?**

- ☐ Do, yn fawr iawn
- ☐ I ryw raddau
- ☐ Ddim o gwbl

**21. Sut byddech chi'n disgrifio eich dealltwriaeth o ddiwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r newidiadau a fydd yn digwydd yn eich ysgol chi?**

- ☐ Rhagorol
- ☐ Da
- ☐ Boddhaol
- ☐ Gwael
- ☐ Gwael iawn

# Cwestiynau am gael tystiolaeth uniongyrchol

**22. Cyn i'r cyfyngiadau gael eu gosod ym mis Mawrth 2020, sawl tro y gwnaethoch chi ymweld â'r ysgol i gael tystiolaeth uniongyrchol o'i pherfformiad?**

- ☐ O leiaf unwaith y mis
- ☐ Unwaith y tymor
- ☐ Unwaith y flwyddyn
- ☐ Ddim o gwbl
- ☐ Ddim yn berthnasol – nid oeddwn yn llywodraethwr cyn mis Mawrth 2020

**23. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf (2021 – 2022), sawl tro y gwnaethoch chi ymweld â'r ysgol i gael tystiolaeth uniongyrchol o'i pherfformiad?**

- ☐ O leiaf unwaith y mis
- ☐ Unwaith y tymor
- ☐ Unwaith y flwyddyn
- ☐ Ddim o gwbl

**24. Pa fathau o weithgareddau ydych chi'n ymgymryd â nhw yn ystod eich ymweliadau? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- ☐ Treulio amser mewn dosbarthiadau unigol
- ☐ Cynnal teithiau dysgu i ymweld â llawer o ddosbarthiadau
- ☐ Siarad â disgyblion am eu gwaith
- ☐ Siarad â staff
- ☐ Edrych ar waith disgyblion ar eich pen eich hun neu â llywodraethwyr eraill
- ☐ Edrych ar waith disgyblion ag aelodau staff i roi arweiniad i chi ar beth i chwilio amdano
- ☐ Cyfarfod â staff yr awdurdod lleol neu'r consortiwm
- ☐ Cyfarfod â'r pennaeth neu arweinwyr eraill
- ☐ Mynychu digwyddiadau'r ysgol fel cyngherddau, gwasanaethau, mabolgampau
- ☐ Arall – rhowch fanylion:

**25. Beth ydych chi'n canolbwyntio arno yn ystod eich ymweliadau? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- ☐ Meysydd pwnc unigol e.e. llythrennedd, rhifedd, TGCh, gwyddoniaeth
- ☐ Agweddau fel ymddygiad, yr amgylchedd dysgu, cyfleusterau awyr agored, marcio ac ati
- ☐ Agweddau penodol o'r cynllun gwella ysgol
- ☐ Safonau cyflawniad disgyblion
- ☐ Safonau addysgu
- ☐ Effaith penderfyniadau gwariant
- ☐ Arall – rhowch fanylion:

**26. Ym mha ffyrdd ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei chasglu o'ch ymweliadau? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- ☐ Ysgrifennu adroddiadau ffurfiol i'w rhannu â llywodraethwyr eraill
- ☐ Adrodd yn ôl ar lafar i'r pennaeth neu arweinwyr eraill
- ☐ Rhoi adroddiad llafar i'r llywodraethwyr eraill
- ☐ Nodi cryfderau a meysydd i'w gwella
- ☐ Dim – rydw i'n cadw'r wybodaeth i mi fy hun
- ☐ Arall – rhowch fanylion:

# Cwestiynau am benodi uwch aelodau staff

**27. A ydych chi erioed wedi bod yn rhan o benodi uwch aelodau staff (penaethiaid, dirprwy benaethiaid neu benaethiaid cynorthwyol)?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw

Os ydw, a gawsoch chi gymorth ac arweiniad effeithiol gan staff yr awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol?

**28. A ydych chi'n teimlo bod gan banel o lywodraethwyr y medrau a'r profiad i wneud y gwaith canlynol?**

| | Oes | Nac oes |
|---|---|---|
| Cytuno ar swydd ddisgrifiad a manyleb yr unigolyn | ☐ | ☐ |
| Llunio gweithgareddau'r cyfweliad i sicrhau y dylech chi benodi'r ymgeisydd cywir | ☐ | ☐ |
| Llunio rhestr fer o'r ymgeiswyr cryfaf | ☐ | ☐ |
| Casglu a dadansoddi gwybodaeth o'r broses gyfweld i sicrhau y dewiswyd yr ymgeisydd cryfaf | ☐ | ☐ |

# Cwestiynau am hunanwerthuso

**29. A ydych chi erioed wedi cyfrannu at unrhyw weithgareddau hunanwerthuso i nodi cryfderau eich corff llywodraethol a'i feysydd i'w gwella?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw

**30. Os ydych, pa mor aml y mae'ch corff llywodraethol yn cynnal hunanwerthusiad o'i waith?**

- ☐ Blynyddol
- ☐ Parhaus – rydym yn edrych ar agweddau bob tymor
- ☐ Yn ôl yr angen
- ☐ Unwaith bob 2 i 5 mlynedd
- ☐ Dim mwy nag unwaith bob 5 i 10 mlynedd
- ☐ Ddim yn gwybod

**31. Beth oedd y prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod eich gwaith hunanwerthuso diweddaraf?**

| | |
|---|---|
| Cryfder 1 | |
| Cryfder 2 | |
| Cryfder 3 | |
| Maes i'w wella 1 | |
| Maes i'w wella 2 | |
| Maes i'w wella 3 | |

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Canolfan Adnoddau Arbenigol** | Canolfan adnoddau arbenigol o fewn ysgol brif ffrwd sy’n darparu cymorth teilwredig i alluogi disgyblion i barhau i elwa ar y cwricwlwm tra’n darparu rhaglen ymyrraeth arbenigol ar eu cyfer. |
| **Categori Statudol** | Mae mesurau arbennig a gwelliant sylweddol yn gategorïau statudol sy’n berthnasol i ysgolion ac UCDau sy’n peri pryder fel y diffinnir gan Ddeddf Addysg 2005 ac unrhyw gylchlythyrau cysylltiedig. |
| **Clwstwr o ysgolion** | Mae clystyrau o ysgolion yn grwpiau o ysgolion sy’n agos ac yn hygyrch yn ddaearyddol at ei gilydd. |
| **Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY)** | Aelod o staff sy’n gyfrifol am gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol |
| **Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)** | Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yw’r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru, sy’n cwmpasu athrawon a staff cymorth dysgu mewn ysgolion a lleoliadau addysg bellach, gweithwyr cymorth ieuenctid ac ymarferwyr dysgu yn y gwaith. |
| **Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) neu Gynllun Gwella Ysgol (CGY)** | Y ddogfen ganolog lle mae arweinwyr ysgolion yn amlinellu eu cynlluniau strategol ar gyfer datblygu eu hysgol |
| **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (ALNET)** | Mae’r Ddeddf hon yn sefydlu’r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc. |
| **Gwasanaethau gwella ysgolion** | Y ddarpariaeth a sefydlwyd gan awdurdodau lleol i gyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion fel yr amlinellir ym Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio’n Rhanbarthol Llywodraeth Cymru. |
| **Hwb** | Y platfform digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i’r holl ysgolion a gynhelir. |
| **Meysydd dysgu a phrofiad (MDPh)** | Mae Dyfodol Llwyddiannus yn cyfeirio at ddatblygu chwe maes dysgu a phrofiad fel ffordd o drefnu pynciau’r cwricwlwm, sef y celfyddydau mynegiannol, iechyd a lles, y dyniaethau, ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, mathemateg a rhifedd, a gwyddoniaeth a thechnoleg. |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Yr Adran Addysg (2020) *Governance handbook* Llundain [ar-lein]. Ar gael fromhttps://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/925104/Governance_Handbook_FINAL.pdf [Darllenwyd 30 Awst 2022]

Estyn (2015) *Arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion* Caerdydd [ar-lein]. Ar gael o Arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion - Mehefin 2015 | Estyn (llyw.cymru) [Darllenwyd 9 Ionawr 2023]

Estyn (2017) Cynorthwyo llywodraethwyr i gyflawni eu rôl yn fwy effeithiol Caerdydd [ar-lein]. Ar gael o Cynorthwyo llywodraethwyr i gyflawni eu rôl yn fwy effeithiol | Estyn [Darllenwyd 9 Ionawr 2023]

Llywodraeth EM (1999) Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 Llundain [ar-lein]. Ar gael o https://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/1812/contents/made [Darllenwyd 9 Ionawr 2023]

Llywodraeth EM (2021) Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 Llundain [ar-lein]. Ar gael o https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/4/contents/enacted [Darllenwyd 28 Awst 2022]

Llywodraeth EM (2022) *Deddf Addysg 2002 Rhan 3 Pennod 1*. Llundain [ar-lein]. Ar gael o https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/part/3 [Darllenwyd 28 Awst 2022]

National Governance Association (2022) *School and trust governance in 2022* Birmingham [ar-lein]. Ar gael o https://www.nga.org.uk/Knowledge-Centre/research-(1)/Annual-school-governance-survey.aspx [Darllenwyd 9 Ionawr 2023]

Llywodraeth Cymru (2005) *Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005*. Caerdydd [ar-lein]. Ar gael o https://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2914/contents/made [Darllenwyd 28 Awst 2022]

Llywodraeth Cymru (2017) *Ysgolion sy'n Peri Pryder Caerdydd* [ar-lein]. Ar gael o https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/ysgolion-sy%27n-peri-pryder-canllawiau-statudol-i-ysgolion-ac-awdurdodau-lleol.pdf [Darllenwyd 15 Mawrth 2023]

Llywodraeth Cymru (2022) *Canllaw i'r gyfraith i lywodraethwyr ysgolion* Caerdydd [ar-lein]. Ar gael o https://www.llyw.cymru/canllaw-ir-gyfraith-i-lywodraethwyr-ysgolion [Darllenwyd 28 Awst 2022]

Llywodraeth Cymru (2020) *Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru: deall rôl data o ran cefnogi hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion. Canllawiau i awdurdodau*

*lleol ar beth i'w gynnwys mewn hyfforddiant.* Caerdydd [ar-lein]. Ar gael o https://www.llyw.cymru/hyfforddiant-i-lywodraethwyr-ysgol-yng-nghymru-deall-rol-data-o-ran-cefnogi-hunanwerthuso-gwella. [Darllenwyd 9 Ionawr 2023]